Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Ieithoedd Tramor Modern

Gorffennaf 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Pa mor dda yw cyflawniad dysgwyr?** | **9** |
| **Pa mor dda yw cyrhaeddiad dysgwyr?** | **11** |
| **Ansawdd yr addysgu** | **16** |
| **Asesu** | **18** |
| **Yr amgylchedd dysgu** | **19** |
| **Arweinyddiaeth** | **20** |
| **Agweddau dysgwyr** | **23** |
| **Agweddau rhieni** | **24** |
| **Cyflenwad athrawon a datblygiad proffesiynol** | **24** |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **26** |
| **Atodiad 2: Cyfeiriadau** | **27** |
| **Atodiad 3: Astudiaethau achos** | **29** |
| **Atodiad 4: Camau addysgu a dysgu wrth feistroli iaith dramor fodern** | **34** |
| **Atodiad 5: Canlyniadau holiaduron ar gyfer rhieni dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4** | **38** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **46** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor yn llythyr cylch gwaith blynyddol 2015-2016 y Gweinidog at Estyn. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ieithoedd tramor modern, a datblygiadau a materion mewn addysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru ers ein hadroddiad diwethaf a gyhoeddwyd yn 2009.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraethwyr, penaethiaid, uwch arweinwyr a staff ieithoedd tramor modern mewn ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb i rieni, i staff mewn sectorau eraill, ac i asiantaethau sy'n gweithio gydag ysgolion i wella ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r dystiolaeth a nodir yn Atodiad 1. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys barn dysgwyr a chanlyniadau holiadur a gasglodd safbwyntiau rhieni.

## Cefndir

Ym Mehefin 2009, cyhoeddodd Estyn adolygiad o ieithoedd tramor modern: 'Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru: Cyngor ac arweiniad ar arfer dda i ysgolion ac awdurdodau lleol.'

Yr ysgolion a gafodd eu cynnwys yn arolwg 2009 oedd y rheiny y nodwyd bod ganddynt arfer dda neu arfer well. At ddibenion yr arolwg hwn, nododd arolygwyr sampl fwy amrywiol o ysgolion, gan gynnwys y rheiny sy'n dangos arfer dda a'r rheiny sy'n wynebu anawsterau o ran cynnal neu ddenu disgyblion i astudio iaith dramor fodern i lefel arholiad.

Dyma oedd y canfyddiadau allweddol yn 2009:

1) Bu cynnydd cyson dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn ieithoedd tramor modern ar ddiwedd cyfnod allweddol 3
2) Cafodd dysgwyr a fu'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 ganlyniadau da o ran cyfran y dysgwyr a gafodd radd C neu'n uwch mewn TGAU
3) Roedd canlyniadau mewn Safon Uwch hefyd yn dda o ran cyfran y dysgwyr a gafodd radd A*- C neu'n uwch mewn Safon Uwch
4) Roedd safonau cyflawniad, fel y'u barnwyd gan arolygwyr ysgol Estyn, yn dda ar y cyfan, ac yn debyg i'r rheiny mewn pynciau eraill
5) Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn benodol ar gyfer yr arolwg, roedd safonau'n llawer uwch na'r arfer ar arolygiadau eraill
6) Roedd ansawdd yr addysgu yn ffactor pwysig iawn wrth ddatblygu safonau da ac wrth annog disgyblion i barhau â dysgu iaith dramor fodern ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol

7) Yn ogystal ag addysgu da, roedd gan adrannau sydd â niferoedd uchel o ddysgwyr sy'n dilyn ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 strategaethau effeithiol fel arfer i hyrwyddo astudio ieithoedd ymhellach
8) Roedd llawer o'r ysgolion llwyddiannus yn yr arolwg yn darparu o leiaf ddwy awr yr wythnos o astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 3
9) Roedd systemau dewisiadau ysgolion yn dylanwadu'n gryf ar gyfran y dysgwyr sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4
10) Fe wnaeth yr adrannau ieithoedd tramor modern hynny y barnwyd eu bod yn dda drefnu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol yn gysylltiedig â'r pwnc
11) Nid oedd digon o gydweithio rhwng adrannau Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern mewn ysgolion
12) Roedd dysgu iaith dramor mewn ysgolion cynradd yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau a chyflawniadau disgyblion mewn ysgolion uwchradd
13) Roedd y cymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer ieithoedd tramor modern yn amrywio gormod
14) Roedd nifer gyffredinol y myfyrwyr sy'n gwneud cais am leoedd hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn ieithoedd tramor modern wedi aros yn weddol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf, ond roedd darparwyr wedi gweld amrywiadau ac wedi cael anhawster yn bodloni eu cwotâu

Ym Mehefin 2015, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Addysg Canolfan Athrawon Prydain (CfBT) ei chanfyddiadau o'r arolwg tueddiadau iaith a gynhaliwyd yn 2014-2015 (Board a Tinsley, 2015) ar ran y Cyngor Prydeinig yng Nghymru. Amlygodd yr arolwg hwn fod gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 ac mewn cyrsiau ôl-16. Amlygodd hefyd fod gostyngiad yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau ieithoedd tramor modern mewn TGAU a Safon Uwch neu gyrsiau cyfatebol.

Nid Cymru yw'r unig wlad lle bu gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio ieithoedd tramor modern. Mae'r broblem hon yn gyffredin i'r gwledydd cartref eraill. Yn Hydref 2015, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yng Nghymru 'Dyfodol byd-eang: cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru yn 2015-2020' (Llywodraeth Cymru, 2015a). Mae'r cynllun hwn yn cysylltu'n agos â chanlyniadau adolygiad yr Athro Graham Donaldson o drefniadau'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru, sef 'Dyfodol Llwyddiannus', (Donaldson, 2015). Argymhelliad allweddol yn 'Dyfodol Llwyddiannus', ac a dderbyniwyd gan y Gweinidog, yw dod â Saesneg, Cymraeg ac ieithoedd tramor modern ynghyd mewn un maes o ddysgu a phrofiad, o'r enw 'Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'.

Mae 'Dyfodol byd-eang' yn amlinellu'r bwriad bod 'pob dysgwr yng Nghymru yn tyfu'n ddinasyddion byd-eang, ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn ieithoedd eraill a gwerthfawrogi diwylliannau eraill,' (Llywodraeth Cymru, 2015a, tud.3). Er mwyn cyflawni hyn, mae'r cynllun yn cynnig 'annog dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth am ddiwylliannau eraill drwy fod yn 'Ddwyieithog a mwy', hynny yw drwy astudio Cymraeg, Saesneg ac o leiaf un iaith dramor fodern o oed cynradd i lefel arholiad, (tud. 3)'.

Dyma nodau'r strategaeth:

1) cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar lefel 2 (lefel TGAU neu gyfatebol), mewn Safon Uwch (lefel 3 neu gyfatebol) ac ar lefel addysg uwch
2) gwella'r profiad addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern i ddysgwyr 7-19 oed, gyda'r bwriad o weithio tuag at system 'Dwyieithog a mwy' lle bydd ieithoedd tramor modern yn dechrau cael eu haddysgu ym Mlwyddyn 5 fel rhan o faes dysgu a phrofiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
3) cynnal a gwella'r lefelau cyrhaeddiad presennol sy'n cael eu cyflawni mewn ieithoedd tramor modern (tud. 3)

Roedd y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau yn rhagweld cynllun pum mlynedd yn cysylltu 'Dyfodol byd-eang' â pholisïau addysg eraill a amlinellir yn 'Cymwys am Oes' (Llywodraeth Cymru, 2014) a 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015). Er mwyn cyflawni'r deilliannau arfaethedig, rhoddodd y Gweinidog dasg i'r consortia rhanbarthol ddatblygu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern i ysgogi'r gwelliannau strategol gofynnol. Sefydlodd grŵp llywio hefyd i oruchwylio gweithredu'r cynllun, a monitro ac arfarnu gwaith y consortia rhanbarthol a'r ysgolion sy'n gweithredu fel canolfannau rhagoriaeth ac ysgolion arweiniol ar gyfer y pwnc.

Hyd at ddiwedd tymor yr haf 2015, roedd y rhan fwyaf o athrawon ieithoedd tramor modern yn caffael datblygiad proffesiynol defnyddiol o weithio mewn grwpiau anffurfiol gyda chydweithwyr yn lleol neu mewn grwpiau iaith ar draws awdurdodau lleol i ddatblygu syniadau newydd. Bu llawer ohonynt yn gweithio gyda CILT Cymru, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd. Cafodd y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd eu haddysgu.

O Fedi 2015, rhoddodd Llywodraeth Cymru dasg i'r consortia rhanbarthol gyflawni'r weledigaeth a'r strategaethau newydd ar gyfer addysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru fel yr amlinellir yn 'Dyfodol byd-eang'. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnal archwiliad cynhwysfawr o'r ysgolion yn eu rhanbarth i nodi patrwm o ddarpariaeth dysgu ieithoedd tramor modern

- rhoi cymorth priodol i'r ysgolion a nodwyd yn yr archwiliad i wella niferoedd y dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau iaith a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu

- datblygu cynlluniau gweithredu clir i gynnwys canlyniadau bwriadedig a meini prawf llwyddo i fonitro, olrhain ac adrodd ar effaith prosiectau a ddechreuwyd i gefnogi adrannau ieithoedd tramor modern o ran y cynllun strategol a amlinellir yn 'Dyfodol byd-eang'.

Mae'n rhy gynnar i roi sylwadau ar effaith y strategaeth yn yr adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Cyfnod allweddol 3

1 Yn y gwersi a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 3, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill medrau da yn eu gwaith llafar ac wrth iddynt ddarllen ac ysgrifennu yn yr iaith asesedig. Mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth dda o ramadeg yr iaith asesedig. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â chanfyddiadau Estyn am ddealltwriaeth dysgwyr o ramadeg yn 2009.

2 Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau mynych â goslef ac ynganiad, yn enwedig wrth ddarllen ar goedd, neu maent yn paratoi sgyrsiau yn ysgrifenedig cyn eu hymarfer fel sgyrsiau llafar. Mae hyn yn amharu ar eu gallu i siarad yr iaith yn rhugl.

3 Mae canran y dysgwyr sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu’n uwch mewn ieithoedd tramor modern wedi gwella dros y saith mlynedd ddiwethaf, ond mae’n rhy isel o hyd (84%), (Llywodraeth Cymru, 2015b). Hon yw’r lefel perfformiad isaf ond un ym mhynciau’r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae bechgyn yn perfformio’n waeth na merched mewn ieithoedd tramor modern yn gyffredinol.

### Cyfnod allweddol 4

4 Yn y gwersi a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 4, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda ar y cyfan o’r medrau iaith sydd eu hangen ar gyfer arholiadau. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i’w cynorthwyo wrth iddynt ddysgu iaith.

5 Fodd bynnag, mae gormod o ddysgwyr, hyd yn oed y rhai mwy abl, nad ydynt yn siarad yr iaith yn ddigon rhugl. Yn aml, mae hyn yn digwydd o ganlyniad i’r ffaith fod dysgwyr wedi paratoi ar gyfer arholiad llafar trwy ddysgu paragraffau wedi’u hysgrifennu ar y testunau penodedig ar eu cof.

6 Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer y rheiny sy’n dilyn cyrsiau ieithoedd tramor modern TGAU yn dda, (Llywodraeth Cymru, 2015d). Yn 2015, llwyddodd 77% o’r myfyrwyr TGAU mewn ieithoedd tramor modern i gyflawni graddau A*-C. Roedd hyn yn well nag ydoedd yn y rhan fwyaf o bynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2015c).

7 Fodd bynnag, o’r dysgwyr hynny a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 3, 28.2% ohonynt yn unig a aeth ymlaen i ennill o leiaf un cymhwyster TGAU mewn iaith dramor fodern, (Llywodraeth Cymru, 2015c). Mewn TGAU, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched o hyd mewn ieithoedd tramor modern (Llywodraeth Cymru, 2015e).

### Safon Uwch

8 Mae canlyniadau Safon Uwch yn dda mewn ieithoedd tramor modern ac yn cymharu’n dda â’r rheiny mewn pynciau eraill, (Llywodraeth Cymru, 2015d). Yn

2015, llwyddodd 82% o'r myfyrwyr Safon Uwch a safodd arholiadau mewn ieithoedd tramor modern i gael graddau A*-C, (Llywodraeth Cymru, 2015c). Mae'r duedd o ran perfformiad uchel mewn Safon Uwch wedi parhau dros gyfnod.

9 Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn ymgeisiadau Safon Uwch yn fwy nag ydyw mewn TGAU, (Llywodraeth Cymru, 2015f). Mae nifer y bechgyn sy'n dilyn cymhwyster Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern yn gyfran lai o lawer na nifer y merched, ac mae'r gyfran wedi aros ar lefel debyg dros gyfnod. Yn 2015, dim ond 204 o'r 700 o ymgeisiadau mewn iaith dramor fodern mewn Safon Uwch oedd yn fechgyn (29%). Er 2009, mae'r gyfran hon wedi dangos amrywiadau bach, ond yn gyffredinol, mae wedi parhau ychydig yn is na thraean (Llywodraeth Cymru, heb ei gyhoeddi).

**Addysgu**

10 Mae ansawdd yr addysgu mewn llawer o ystafelloedd dosbarth ieithoedd tramor modern yn ddigonol. Mewn rhai achosion, mae'n dda, ac mae'n rhagorol mewn ychydig bach iawn o achosion.

11 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn y gwersi a arsylwyd yn arbenigwyr pwnc sy'n meddu ar gymwysterau priodol i addysgu ieithoedd tramor modern. Maent yn siarad yr ieithoedd y maent yn eu haddysgu gyda rhuglder a chywirdeb da. Nid yw rhai athrawon yn meddu ar amgyffrediad digon cadarn o'r ffordd fwyaf effeithiol o addysgu iaith dramor fodern. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, fel arfer, y rheswm yw eu bod yn addysgu'r iaith dramor fodern fel ail bwnc.

12 Yn gynyddol, mae athrawon yn defnyddio datblygiadau mewn technoleg ddigidol mewn gwersi yn effeithiol. Mewn rhai achosion, mae athrawon yn defnyddio technoleg yn dda i gefnogi tasgau gwaith cartref.

13 Mae'r graddau y mae athrawon yn addysgu trwy gyfrwng yr iaith asesedig wedi dirywio. Mae athrawon yn defnyddio Saesneg i esbonio cyfarwyddiadau ystafell ddosbarth syml yn rhy aml.

14 Mewn llawer o wersi llai effeithiol, mae athrawon yn rhoi lle blaenllaw i ramadeg ar draul dysgwyr yn datblygu medrau allweddol ieithoedd tramor modern, sef siarad a gwrando.

15 Mewn gormod o ystafelloedd dosbarth, mae athrawon yn gofyn i ddisgyblion baratoi sgyrsiau yn ysgrifenedig cyn ymarfer yr iaith lafar. Mae hyn yn rhwystro disgyblion rhag datblygu lefel dda o rugldер yn yr iaith asesedig.

16 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio ac asesu gwaith dysgwyr yn effeithiol yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol wedi dirywio ers adroddiad diwethaf Estyn yn 2009.

**Darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth**

17 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid adran a thimau ieithoedd tramor modern yn rhannu gweledigaeth am y ddarpariaeth yr hoffent ei chynnig ar gyfer ieithoedd tramor

modern. Fodd bynnag, yn gynyddol, nid yw llawer ohonynt yn cefnogi hyn trwy bolisi ysgrifenedig sy’n amlinellu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern yn yr ysgol. Mae hyn yn arwain at arfer amrywiol yn yr adran.

18 Ar gyfartaledd, caiff dysgwyr dair awr o ddysgu ieithoedd tramor modern ar draws amserlen o bythefnos. Fodd bynnag, mae hyn yn llai o amser na’r ddwy awr yr wythnos a argymhellwyd yn adroddiad diwethaf Estyn ar ieithoedd tramor modern.

19 Mae gan bron bob adran gwricwlwm cynlluniedig ar gyfer ieithoedd tramor modern sy’n cysylltu’n dda â disgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y pedwar medr (siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu).

20 Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o adrannau yn unig y mae athrawon yn cynllunio mewn ffyrdd effeithiol i baratoi dysgwyr i ddefnyddio’r iaith asesedig mewn trafodaethau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth.

21 Bron ym mhob adran, roedd ystod dda o adnoddau i gefnogi dysgu ieithoedd tramor modern. Mae llawer o athrawon ieithoedd tramor modern yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol effeithiol ar gyfer helpu i annog pobl ifanc i ddilyn iaith dramor fodern i lefel arholiad.

22 Mae’r arholiadau sy’n cael eu sefyll gan ddysgwyr mewn ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU neu Safon Uwch yn bennaf. Mae rhai ysgolion yn defnyddio arholiadau eraill i ddarparu ar gyfer dysgwyr a allai fod â medrau cryfach mewn siarad, gwrando a darllen, ond gyda llai o bwyslais ar ysgrifennu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gymhwyster TGAU sy’n cysylltu dysgu iaith a medrau busnes. Mae llawer o athrawon yn ystyried bod hyn yn fwlch sylweddol, yn enwedig o ran denu disgyblion ehangach eu gallu i astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4.

23 Mae’r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr yn arddangos cefnogaeth i roi cyfle i ddysgwyr ddysgu o leiaf un iaith dramor fodern i lefel arholiad. Fodd bynnag, dywed bron pob un ohonynt fod hyn yn heriol, gan fod lle mor flaenllaw yn cael ei roi i’r pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4.

24 Mae strwythur y dewisiadau opsiwn ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn aml yn golygu nad yw dysgwyr yn astudio iaith dramor fodern gan fod y pwnc mewn colofn dewisiadau gyda phwnc arall yr oeddent wir eisiau ei astudio. O ganlyniad, mae nifer fach o ysgolion yng Nghymru lle nad yw dysgwyr yn astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4.

**Recriwtio athrawon ieithoedd tramor modern**

25 Dywed penaethiaid ag adrannau ieithoedd tramor modern sydd ag ychydig iawn o ddysgwyr, os o gwbl, yng nghyfnod allweddol 4 a’r sector ôl-16, a phenaethiaid yng ngorllewin Cymru, ei bod yn aml yn anodd recriwtio athrawon ar gyfer adrannau ieithoedd tramor modern.

26 Yn eithaf aml, gall yr ieithyddion sy’n gwneud cais am swyddi mewn ysgolion nad oes ganddynt lawer o ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern o gynnig un iaith

dramor fodern yn unig.  Mae hyn yn lleihau hyblygrwydd o ran yr amserlen a nifer y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr.

27 Yn 2014-2015, fe wnaeth canolfannau hyfforddiant cychwynnol i athrawon recriwtio hanner y cwota ar y mwyaf o ran athrawon dan hyfforddiant ieithoedd tramor modern a neilltuwyd iddynt gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

## Argymhellion

**Dylai athrawon ieithoedd tramor modern:**

A1 Gwella ansawdd yr addysgu mewn ieithoedd tramor modern trwy sicrhau eu bod:

- yn cynyddu'r defnydd o'r iaith asesedig fel yr iaith cyfarwyddo ar draws cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16
- yn helpu dysgwyr i gael amgyffrediad cadarn o reolau ynganu'r iaith y maent yn ei dysgu
- yn helpu dysgwyr i ddefnyddio ystod eang o strategaethau i baratoi'n hyderus ar gyfer arholiadau llafar, fel bod dysgwyr yn datblygu rhuglder llafar ar lefelau yn unol â'u galluoedd
- yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr o bob gallu yn cael eu herio'n llawn ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iaith creadigol sy'n datblygu eu meistrolaeth o'r iaith
- yn cadw cydbwysedd priodol rhwng addysgu gramadeg a'r pedwar medr iaith, yn enwedig siarad a gwrando
- yn asesu gwaith dysgwyr gan ddefnyddio strategaethau ystyrlon o ran asesu ar gyfer dysgu

A2 Mynychu grwpiau rhwydwaith rhanbarthol a hyfforddiant rhanbarthol, a chymryd rhan ynddynt, i ddatblygu medrau lefel uwch mewn addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern

**Dylai penaethiaid ac uwch arweinwyr:**

A3 Gwella nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf un iaith dramor fodern ar lefel arholiad trwy adolygu eu trefniadau ar gyfer cynllunio ac amserlennu'r cwricwlwm

A4 Gwneud yn siwr bod eu hathrawon ieithoedd tramor modern yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus 'Dyfodol byd-eang' a gynigir mewn rhanbarthau ac ar eu traws i wella ansawdd dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern

## Pa mor dda yw cyflawniad dysgwyr?

28 Yn y gwersi a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 3, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr wybodaeth dda am eirfa sylfaenol yn yr iaith dramor fodern y maent yn ei hastudio. Mewn llawer o ysgolion, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog, fel cystadlaethau sillafu, i'w helpu i ddysgu ystyr, sillafiad ac ynganiad geiriau. Mae llawer o ddysgwyr yn dysgu'r wyddor yn yr iaith y maent yn ei hastudio (yr iaith asesedig) a gallant sillafu geirfa yn gymwys gan ddefnyddio'r wyddor yn briodol ar gyfer yr iaith honno.

29 Mae mwyafrif y dysgwyr yn ynganu geiriau'n gywir a gallant siarad mewn brawddegau syml â goslef ac acen dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau mynych ag ynganiad a goslef. Mae hyn yn arbennig o wir mewn Ffrangeg gan nad yw dysgwyr bob amser yn meddu ar ddigon o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r system iaith yn gweithio.

30 Yn aml, gall dysgwyr mwy abl ddefnyddio iaith fwy cymhleth a holi cwestiynau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Maent yn mynegi ystod ehangach o syniadau, gan gynnwys darparu rhesymau a barn am y testun sy'n cael ei drafod. Mae dysgwyr llai abl yn mynegi eu syniadau mewn brawddegau syml. Fodd bynnag, pan fyddant yn cael deunyddiau ac arweiniad cymorth priodol, gallant ehangu eu hatebion yn briodol.

31 Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr fedrau gwrando da ac maent yn deall sgyrsiau a storïau syml yn yr iaith asesedig. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mwy abl yn datblygu strategaethau da i'w helpu i ddeall gweithgareddau gwrando mwy cymhleth, fel gwrando am eiriau allweddol ac am eiriau sy'n debyg yn Saesneg, i sicrhau eu bod yn deall y testun. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall dysgwyr llai abl godi'r pwyntiau allweddol o weithgaredd gwrando gyda chymorth gan gardiau cynorthwyol a deunyddiau eraill.

32 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan o'u gwirfodd mewn gweithgareddau pâr i ymarfer eu medrau gwrando a siarad. Fodd bynnag, yn rhy aml y mae dysgwyr yn paratoi sgyrsiau yn ysgrifenedig cyn eu hymarfer fel sgyrsiau llafar. Nid yw'r arfer hon yn fuddiol o ran caffael rhuglder yn yr iaith, ac mae'n wendid sylweddol. Mae dysgwyr mwy abl yn dangos gallu da yn gynnar yn eu dysgu i ddefnyddio ystod o wahanol ffurfiau cwestiwn â goslef briodol, ac maent yn dibynnu llai ar baratoi sgyrsiau yn ysgrifenedig cyn siarad.

33 Mae llawer o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 3 yn dangos dealltwriaeth dda o ystod o destunau y maent yn eu darllen. Gallant ateb cwestiynau syml ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda chywirdeb rhesymol yn yr iaith asesedig. Pan fydd athrawon yn gofyn cwestiynau agored ac yn helpu dysgwyr i strwythuro eu hatebion trwy roi enghraifft ymlaen llaw, gall llawer o ddysgwyr ateb cwestiynau'n fanylach. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr mwy abl yn rhoi atebion estynedig i gwestiynau mwy cymhleth a gallant fynegi eu rhesymau, eu syniadau a'u barn yn rhugl.

34 Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu darllen a deall testunau mewn perthynas â'u cyfnod dysgu yn dda, ni all llawer o'r rheiny sy'n dysgu Ffrangeg yn arbennig ddarllen y testun ar goedd gydag amgyffrediad cadarn o reolau iaith ysgrifenedig. Er enghraifft, bydd dysgwyr yn aml yn gwneud sŵn 's', 't' neu'r 'h' fud pan nad yw'n briodol gwneud hynny. Mae hyn yn wendid sylweddol.

35 Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr ysgrifennu brawddegau a pharagraffau syml cywir yn yr iaith asesedig gan ddefnyddio ystod dda o eirfa, amserau berfau a strwythurau, yn enwedig pan gânt eu haddysgu ynglŷn â'r broses ddrafftio, rhannu eu gwaith ar gyfer sylwadau ac ailddrafftio. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio geiriaduron yn yr iaith asesedig yn effeithiol i gefnogi eu hysgrifennu ac amrywio ac ymestyn eu geirfa. Mae gan lawer o ddysgwyr ddealltwriaeth dda o sut i ddewis yr iaith y maent yn ei defnyddio yn unol â beth maen nhw'n ei ysgrifennu ac i bwy. Gallant ysgrifennu darnau byr mewn nifer o *genres*, er enghraifft darnau disgrifiadol, llythyrau at ffrindiau, adroddiadau am ddigwyddiadau, deialogau a chyflwyniadau.

36 Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth dda o ramadeg yr iaith asesedig. Mae dysgwyr mwy abl yn aml yn defnyddio brawddegau mwy cymhleth ac ystod fwy o eirfa, amserau berfau a strwythurau yn dda i strwythuro eu gwaith mewn paragraffau fel bod ganddo strwythur effeithiol a rhesymegol ac yn fwy diddorol i'w ddarllen. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â chanfyddiadau Estyn am ddealltwriaeth dysgwyr o ramadeg yn 2009.

37 Yn y gwersi a arsylwyd yng nghyfnod allweddol 4, at ei gilydd, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r medrau y mae angen iddynt eu meistroli ar gyfer arholiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'r deunyddiau dysgu a'u cyfoedion i ymarfer y pedwar medr, sef siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, ar wahân ac mewn gweithgareddau medrau cymysg. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn dangos medrau da mewn dysgu annibynnol, fel testunau ymchwilio, gan ddefnyddio deunyddiau ffynonellau dilys a'r rhyngrwyd i ymarfer eu medrau iaith a datblygu eu gwybodaeth ymhellach. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn dangos lefel dda o ddyfalbarhad o ran canfod ystyr iaith anghyfarwydd. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos meistrolaeth gadarn o eirfa a strwythurau gramadegol allweddol ac maent yn eu cymhwyso'n foddhaol mewn ystod o weithgareddau gwahanol.

38 Mae disgyblion mwy abl yn aml yn dangos meistrolaeth gadarn iawn o eirfa a strwythurau sylfaenol a meistrolaeth gynyddol dda o strwythurau mwy heriol, fel defnydd priodol o'r amser amodol a dibynnol, a'r llais gweithredol a goddefol. Gall llawer o ddysgwyr ymdopi â chlywed a darllen testun hwy a mwy cymhleth. Mae lleiafrif o ddysgwyr mwy abl yn dangos dealltwriaeth dda o bŵer iaith a'r defnydd o arlliwiau wrth ysgrifennu a siarad. Maent yn dechrau defnyddio iaith yn effeithiol iawn, ac yn benodol, yn dechrau rhoi mwy o 'flas' i'w gwaith eu hunain mewn siarad ac ysgrifennu.

39 Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i'w cynorthwyo â dysgu iaith, er enghraifft i ymarfer agweddau penodol ar yr iaith neu wrando ar orsafoedd radio a chyfryngau cymdeithasol tramor. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweld bod deall eitemau radio yn llawn neu wylio'r teledu ar yr adeg hon yn eu dysgu yn her. Serch hynny, mae'n effeithiol o ran eu hamlygu i'r iaith asesedig ar y cyflymder a ddefnyddir gan y rheiny sy'n siarad yr iaith frodorol ac i'r mynegiannau a'r fratiaith ddiweddaraf.

40 Fodd bynnag, diffyg cyffredin i ddysgwyr ar draws yr ystod gallu yw pan fyddant yn paratoi ar gyfer yr arholiad llafar trwy ysgrifennu paragraffau ar y testunau penodedig, a'u dysgu ar eu cof. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i siarad yr iaith â rhuglder da a gall fod yn niweidiol i ganlyniadau arholiadau os nad yw'r arholwr yn

gofyn y cwestiwn y mae wedi paratoi ateb ar ei gyfer. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol. Mewn arfer fwy effeithiol, mae dysgwyr yn defnyddio mapiau meddwl i annog syniadau, strwythurau a geirfa allweddol, er enghraifft.


41 Yn y gwersi a welwyd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 fel ei gilydd, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a'r meysydd y mae angen iddynt wella ynddynt. Mewn llawer o achosion, defnyddiant dargedau asesu ar gyfer dysgu yn ddiwyd i wella eu gwaith eu hunain a rhoi adborth ffocysedig i'w cyfoedion.

## Pa mor dda yw cyrhaeddiad dysgwyr?

### Perfformiad mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 3

42 Yn 2015, llwyddodd 84% o ddysgwyr i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch mewn asesiadau athrawon mewn ieithoedd tramor modern. Mae hyn yn gynnydd o dros 20 pwynt canran er 2009. Mae'r cynnydd cyson hwn mewn cyrhaeddiad dros y chwe blynedd ddiwethaf wedi bod yn fwy na'r cynnydd yn unrhyw un arall o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, heblaw ar gyfer Cymraeg ail iaith. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliant hwn, mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd lefel 5 neu'n uwch yn parhau i fod yn is nag ydyw yn yr holl bynciau eraill, heblaw Cymraeg ail iaith, (Llywodraeth Cymru, 2015b).

43 Y bwlch mewn cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 3 yn 2015 rhwng bechgyn a merched yw 10.6 pwynt canran. Mae hyn yn llawer is nag ydoedd yn 2009 pan oedd yn 17.6 pwynt canran. Er gwaethaf y gwelliant hwn, yn gyffredinol, nid yw cyrhaeddiad bechgyn cystal mewn ieithoedd tramor modern ag ydyw yn yr holl bynciau eraill yng nghyfnod allweddol 3, ac nid yw cystal mewn Saesneg, (Llywodraeth Cymru, 2015g).





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015e)*

44 Nododd arolwg diweddar gan y Cyngor Prydeinig yng Nghymru (Board a Tinsley, 2015) fod 29% o ysgolion wedi adrodd nad yw disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion yn astudio iaith dramor fodern gan fod blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i Saesneg a mathemateg.

**Perfformiad mewn arholiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4**

45 Mae canlyniadau mewn cyrsiau ieithoedd tramor modern mewn TGAU yn dda neu'n well nag ydynt ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae cyfran yr ymgeisiadau TGAU sy'n arwain at raddau A*-C wedi amrywio rhywfaint rhwng 2009 a 2015 ond, yn gyffredinol, mae wedi aros yn debyg i'r 77% a gofnodwyd yn 2015. Mae hyn yn well nag ydyw yn y rhan fwyaf o bynciau eraill y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn 2015, mae pum pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr holl bynciau, gan gynnwys pynciau galwedigaethol, (Llywodraeth Cymru, 2015c).




Sylwer: Mae'n cynnwys myfyrwyr 15 oed yn unig. Mae ceisiadau cynnar ac arholiadau a ddiystyrwyd wedi cael eu dileu. Mae Ieithoedd Tramor Modern yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, yn ogystal ag ieithoedd eraill fel Arabeg, Tsieinëeg ac Eidaleg.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015e)*

46 Mae nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU mewn ieithoedd tramor modern yn fach, ond yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes ffigurau ar gael i ddangos faint o'r rheiny sy'n cael graddau A* ac A sy'n siarad yr iaith frodorol, a gallai hyn gael dylanwad pwysig ar ddeilliannau a'r perfformiad cymharol uchel o gymharu â'r hyn a geir mewn pynciau eraill, (Llywodraeth Cymru, 2015d).

47 Rhwng 2009 a 2015, mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad mewn TGAU rhwng bechgyn a merched wedi aros o gwmpas wyth neu naw pwynt canran. Mae'r bwlch o naw pwynt canran yn 2015 yn llawer llai na'r bwlch mewn Saesneg (17 pwynt canran), ond yn uwch na'r bwlch mewn mathemateg (un pwynt canran). At ei gilydd, naw pwynt canran oedd y bwlch cyfartalog mewn cyrhaeddiad rhwng bechgyn a merched ar draws y pynciau TGAU (Llywodraeth Cymru, 2015e).

48 Mae cyfran y bechgyn sy'n sefyll arholiadau ieithoedd tramor modern TGAU wedi aros yn gymharol sefydlog. Mae bechgyn yn cyfrif am 38% o'r holl ymgeisiadau yn 2015 o gymharu â 39% yn 2009, (Llywodraeth Cymru, 2015e).


49 Mae nifer yr ysgolion sydd â disgyblion sy'n sefyll mwy nag un arholiad mewn iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol wedi gostwng er 2010. Disgynnodd cyfran yr ysgolion sy'n cofrestru disgyblion ar gyfer mwy nag un iaith dramor fodern mewn TGAU o 66% yn 2010 i 56% yn 2015, (Llywodraeth Cymru, 2015c).

**Perfformiad mewn arholiadau Safon Uwch**

50 Mae canlyniadau Safon Uwch yn dda. Ar y cyfan, maent cystal â'r canlyniadau ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau prif ffrwd, neu'n well. Yn 2015, fe wnaeth cyfran yr ymgeisiadau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern sy'n cael graddau A*-C aros yn sefydlog, sef 82%. Mae hyn chwe phwynt canran yn uwch na'r sgôr

gyfartalog A*-C ar gyfer yr holl bynciau gyda'i gilydd ac mae'n debyg i'r sefyllfa yn 2009, (Llywodraeth Cymru, 2015c).

51 Mae ymgeisiadau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern wedi gostwng yn fwy sydyn na nifer y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau TGAU mewn ieithoedd tramor modern. Yn 2009, roedd bron 1,152 o ymgeisiadau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern; disgynnodd y ffigur hwn dros draean (39%) i 700 o ymgeisiadau yn 2015, (Llywodraeth Cymru, 2015f).




Sylwer: Mae'n cynnwys myfyrwyr 17 oed yn unig. Mae ceisiadau cynnar ac arholiadau a ddiystyrwyd wedi cael eu dileu. Mae Ieithoedd Tramor Modern yn cynnwy Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, yn ogystal ag ieithoedd eraill fel Arabeg, Tsieinëeg ac Eidaleg.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015f)*

52 Mae'r gostyngiad mewn ymgeisiadau a welwyd ymhlith yr holl ddisgyblion yn gyson pan gânt eu rhannu yn ôl rhywedd; mae ymgeisiadau gan fechgyn a merched fel ei gilydd wedi gostwng 39%. Yn yr un modd â'r cyfnodau allweddol eraill, mewn Safon Uwch, caiff cryn dipyn yn llai o ymgeisiadau eu gwneud gan fechgyn na merched. Er 2009, mae'r cyfrannau wedi aros yn weddill sefydlog, sef tua 30% bechgyn a 70% merched. Cyfran y bechgyn sy'n dilyn yr holl gyrsiau Safon Uwch yw 43%.

53 Mae'r gwahaniaethau pellach o ran rhywedd yn y mathau o ieithoedd sy'n cael eu hastudio ar lefel Safon Uwch. Yn 2015, roedd 24% o ymgeisiadau gan ferched ar gyfer Sbaeneg o gymharu ag 16% o ymgeisiadau gan fechgyn. Mewn cyferbyniad, roedd bechgyn yn llawer mwy tebygol o fod yn astudio 'iaith fodern arall', gyda'r arholiadau llai cyffredin hyn yn cyfrif am 19% o holl ymgeisiadau bechgyn o gymharu ag 11% o ferched'.


54 Mae'r poblogrwydd o ran niferoedd yr ymgeisiadau Safon Uwch mewn ieithoedd heblaw Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg wedi aros yn sefydlog o 2009 i 2015. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gostyngiad mewn ymgeisiadau ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, mae ymgeisiadau ar gyfer Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern eraill bellach yn cyfrif am 13% o'r holl ymgeisiadau, o gymharu â 6% yn 2009. Yn

2015, mae'r ymgeisiadau ar gyfer Ffrangeg, sef 50%, yn parhau i fod yn uwch nag ydynt ar gyfer unrhyw iaith arall. Fodd bynnag, yn yr un modd ag ymgeisiadau TGAU, mae wedi dirywio mewn poblogrwydd er 2009 pan roedd Ffrangeg yn cyfrif am 61% o'r holl ymgeisiadau iaith ar lefel Safon Uwch. Mae cyfran yr ymgeisiadau ar gyfer Almaeneg, sef 15%, wedi dangos gostyngiad tebyg, ac mae'n is na chyfran yr ymgeisiadau ar gyfer Sbaeneg, sydd wedi codi i 21%. At ei gilydd, fodd bynnag, yn 2015, dilynodd 150 o ymgeiswyr 17 oed yng Nghymru gyrsiau ieithoedd mewn Safon Uwch mewn Sbaeneg, ac ychydig dros 100 o ymgeiswyr mewn Almaeneg, (Llywodraeth Cymru, 2015f).

**Dilyniant o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 5**

55 O nifer y dysgwyr a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch mewn ieithoedd tramor modern ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn 2011, aeth 28.2% ymlaen i astudio o leiaf un iaith dramor fodern mewn TGAU yn 2013. O'r dysgwyr a gyflawnodd raddau A*-C mewn o leiaf un cymhwyster TGAU mewn ieithoedd tramor modern yn 2013, aeth 8.3% ymlaen i gofrestru ar gyfer o leiaf un cwrs Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern yn 2015. Mae hyn yn cynrychioli llai na 2% o'r garfan wreiddiol yn 2010. O'r garfan wreiddiol hon, llwyddodd 1.4% o ymgeiswyr i gyflawni gradd A*-C mewn Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern, (Llywodraeth Cymru, 2015c).

**Dilyniant disgyblion sy'n dilyn cyrsiau ieithoedd tramor modern (ITM) yng nghyfnod allweddol 3 trwy gyrsiau TGAU a Safon Uwch, 2011 i 2015, Cymru**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2015c) a (2015h)*

## Ansawdd yr addysgu

56 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn y gwersi a arsylwyd yn arbenigwyr pwnc sy'n meddu ar gymwysterau priodol i addysgu ieithoedd tramor modern. Maent yn siarad yr ieithoedd y maent yn eu haddysgu gyda rhuglder a chywirdeb da. Nid oes gan rai athrawon amgyffrediad da o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o addysgu iaith dramor fodern yn ôl yr angen. Er enghraifft, er y gallai'r athrawon hyn gynllunio gwers ag iddi ddilyniant da, yn ymarferol, nid ydynt bob amser yn datblygu'r medrau sy'n ategu'r ymarfer nesaf yn llawn. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr bob amser yn meddu ar amgyffrediad cadarn o'r deunydd sylfaenol ac felly ni all gymryd y cam nesaf i atgyfnerthu ei ddysgu yn hyderus. Mae'r diffyg cysylltiad rhwng cynllunio a chymhwyso fel arfer yn digwydd am fod yr athrawon hyn yn addysgu iaith dramor fodern fel ail bwnc. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gwersi ieithoedd tramor modern yn dda ac yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pedwar medr iaith, sef siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu.

57 Mewn lleiafrif o'r gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio cyfres o weithgareddau mewn dilyniant yn dda sy'n galluogi dysgwyr i adolygu iaith a strwythurau a ddysgwyd yn flaenorol, yn ogystal ag ymarfer iaith newydd mewn ystod o ffurfiau. Maent yn adeiladu ar wybodaeth a rhuglder dysgwyr yn gyson trwy ddilyniant o weithgareddau, gan amlygu dysgwyr i destun yr iaith trwy'r pedwar medr ar wahân ac mewn ffurfiau medrau cymysg. Maent yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr atgyfnerthu ac ymestyn eu dysgu iaith trwy ystod o dasgau sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, yn eu cymell a'u herio trwy waith annibynnol a gwaith pâr, ymchwil a datrys problemau, ac sy'n datblygu gwybodaeth dysgwyr am bynciau eraill (er enghraifft, cyllid, iechyd, gwleidyddiaeth, yr amgylchedd) a'r byd ehangach. Mae rhediad bwriadus i'r wers. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddysgwyr ddefnyddio medrau ieithyddol a datrys problemau lefel uwch i gynhyrchu gwaith y maent yn defnyddio iaith yn greadigol ynddo (gweler Atodiad 3: astudiaeth achos 3).

58 Mewn llawer o wersi llai llwyddiannus, mae'r wers yn symud yn araf ac mae dysgwyr yn treulio gormod o amser yn darllen ac ysgrifennu yn unig, neu ar dasgau nad ydynt yn eu herio ac yn eu hymestyn wrth ddysgu iaith. Yn rhy aml, mae athrawon yn gofyn i ddisgyblion ysgrifennu sgyrsiau cyn eu hymarfer ar lafar. Mae hyn yn rhwystro galluoedd dysgwyr i feddwl yn yr iaith a'i siarad gyda rhywfaint o rugldег. Mae cynllunio athrawon yn datgan yn rhy aml y bydd 'pawb' yn cwblhau tasg gyffredin, wedyn bydd 'y rhan fwyaf' ohonynt yn cwblhau tasg bellach a bydd 'rhai' ohonynt yn cwblhau tasg arall, ac mae'n ymddangos bod yr olaf o'r rhain wedi'i hanelu at y disgyblion mwyaf abl i bob pwrpas. Fodd bynnag, mae achosion pan na fydd y dasg i 'rai' yn heriol iawn yn digwydd yn rhy aml. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n ceisio atgyfnerthu'r iaith y maent wedi ei dysgu, ond nid yw hyn yn helpu i ddatblygu defnydd rhugl a chreadigol dysgwyr o iaith.

59 Yn y dosbarthiadau prin lle mae gwahaniaethu'n llawer cryfach, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau craidd, dilyniant a her. Rhaid i'r holl ddysgwyr gwblhau'r ymarfer craidd sy'n cyflwyno iaith a medrau newydd. Mae'r gweithgareddau dilyniant yn gwahodd dysgwyr i atgyfnerthu eu gwybodaeth am yr iaith a'r medrau newydd mewn gweithgareddau sydd hefyd yn ailddefnyddio iaith, strwythurau a medrau a ddysgwyd mewn testunau eraill. Mae'r gweithgareddau'n annog dysgwyr i fynegi eu

hunain mor fanwl ag y gallant. Mae’r gweithgareddau her yn gwahodd dysgwyr i ddefnyddio’r holl iaith y maent wedi ei dysgu mewn gweithgaredd creadigol a phenagored, fel ysgrifennu stori, adroddiad, drama, darllediad radio, comic, erthygl papur newydd neu flog, creu a ffilmio cyflwyniad llafar ar destun cysylltiedig, neu ysgrifennu ymateb i symbyliad llun neu gerdd. Mae’r dulliau hyn yn helpu disgyblion i ddefnyddio eu dychymyg a datblygu eu dilyniant eu hunain yn yr iaith y maent yn ei dysgu. (Gweler Atodiad 3: astudiaeth achos 4; ac Atodiad 4: camau addysgu a dysgu mewn meistroli iaith dramor fodern.)

60 Mewn gwersi llai effeithiol, yn rhy aml, nid yw athrawon yn treulio digon o amser yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu ynganu geiriau’n gywir. Nid ydynt yn cywiro ynganiadau gwael yn ddigon systematig nac yn mynd ati i addysgu dysgwyr ynglŷn â sut i gysylltu seiniau’r iaith â’r gair ysgrifenedig. O ganlyniad, ni all lleiafrif o ddysgwyr ddarllen yr iaith ar goedd heb wneud camgymeriadau sylfaenol. Mae hefyd yn golygu nad oes gan ddysgwyr yr hyder i siarad yr iaith ac mae’n achosi iddynt ailadrodd camgymeriadau. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw athrawon yn gadael digon o amser i esbonio i ddysgwyr y strategaethau ar gyfer dysgu iaith fel bod dysgwyr yn teimlo’n sicr wrth seinio geiriau, ac nid ydynt yn rhoi digon o amser i ddysgwyr ymarfer ac atgyfnerthu’r iaith trwy weithgareddau ailadrodd, pâr neu grŵp.

61 Ers cyhoeddi adroddiad Estyn ar ieithoedd tramor modern yn 2009, mae’r graddau y mae athrawon yn addysgu’n systematig trwy’r iaith asesedig wedi gostwng. Yn rhy aml, mae athrawon yn defnyddio Saesneg i esbonio cyfarwyddiadau syml yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn lleihau’r cyfleoedd a gaiff dysgwyr i glywed ac ymateb i’r iaith darged.

62 Pan fydd athrawon yn defnyddio’r iaith asesedig yn bennaf, maent yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny’n systematig ar draws y grwpiau blwyddyn y maent yn eu haddysgu, gydag iaith symlach yn y blynyddoedd cynnar a chyflwyno iaith fwy cymhleth yn y grwpiau blwyddyn diweddarach. Mae’r athrawon sy’n defnyddio’r iaith asesedig fel cyfrwng yr addysgu yn y ffordd fwyaf effeithiol yn sicrhau eu bod yn mynd ati i addysgu’r iaith swyddogaethol sydd ei hangen ar ddysgwyr o ddechrau’r cyfnod y maent yn dysgu iaith. Pan fydd athrawon yn cyflwyno’r arfer hon yn ddiweddarach (er enghraifft ym Mlwyddyn 10), mae’n llai llwyddiannus ar y cyfan am nad yw dysgwyr wedi arfer â hi.

63 Yn dilyn cyflwyno’r fframwaith llythrennedd a rhifedd, mae’r rhan fwyaf o adrannau ieithoedd tramor modern yn cyfrannu’n dda at helpu dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ramadeg. Ers adroddiad diweddaraf Estyn ar ieithoedd tramor modern yn 2009, mae’r rhan fwyaf o adrannau wedi gweithio’n effeithiol gyda’r adrannau Cymraeg a/neu Saesneg i sicrhau eu bod yn defnyddio’r un termau gramadegol. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddeall sut mae ieithoedd yn gweithio a’r hyn sydd ganddynt yn gyffredin. Mae llawer o adrannau wedi gweithio’n effeithiol gyda’r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd (CILT, Cymru) ar brosiectau Llythrennedd Triphlyg sy’n ennyn diddordeb dysgwyr a’u herio, yn ogystal â’u helpu i wneud cysylltiadau rhwng y strwythurau iaith. Mae’r rhain wedi eu dogfennu’n dda ac maent yn darparu astudiaethau achos effeithiol ar gyfer ysgolion eraill. Mae hyn yn welliant sylweddol.

64 Fodd bynnag, mewn llawer o wersi llai effeithiol, mae athrawon yn rhoi gormod o bwyslais ar addysgu gramadeg yn y wers iaith ar draul dysgwyr yn datblygu medrau allweddol iaith dramor fodern, sef siarad a gwrando. Treulir gormod o amser ar ymarferion ysgrifennu gramadegol yn y gwersi hyn. Mae hyn yn aml yn golygu bod y wers yn colli ei bywiogrwydd a bod dysgwyr yn colli diddordeb. Yn rhy aml, mae yna ormod o 'ôl-effaith' gofynion arholiadau, a bydd y rhain yn pennu llawer o'r gweithgareddau y mae dysgwyr yn ymgymryd â nhw yng nghyfnod allweddol 3. Mewn gwersi mwy effeithiol, mae athrawon yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng datblygu medrau a gweithgareddau bywiog sy'n helpu dysgwyr i ddysgu'r gramadeg trwy addysgu uniongyrchol a phrofiad uniongyrchol disgyblion o'r iaith gan ddefnyddio'r pedwar medr.

65 Yn gynyddol, mae athrawon yn defnyddio technoleg ddigidol mewn gwersi yn effeithiol. (Gweler Atodiad 3: astudiaeth achos 1). Yn y lleiafrif o ysgolion sydd â thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu dda iawn, mae'r defnydd o lechi electronig i ymgymryd â gweithgareddau dosbarth cyfan yn gwella cymhelliant dysgwyr ac yn helpu i sicrhau bod y dysgu'n symud yn gyflym. Er enghraifft, mae meddalwedd sy'n benodol i bwnc yn galluogi'r athro i baratoi cwis yn seiliedig ar destun a'r iaith a'r gramadeg sy'n cael eu dysgu. (Gweler Atodiad 3: astudiaeth achos 2). Mae hyn yn helpu i leihau amser paratoi athrawon gan eu bod yn gallu storio, defnyddio ac addasu'r deunydd yn ôl yr angen a'i rannu â staff eraill mewn cyfnod byr iawn. Mae gweithgareddau lle gall dysgwyr wneud cwisiau byr i brofi eu gwybodaeth a chael adborth uniongyrchol yn codi lefelau cyfranogiad bron pob un o'r dysgwyr yn y wers. Mae effaith gyfunol defnyddio technoleg a'r elfen o gystadleuaeth mewn cwis yn ennyn diddordeb bechgyn yn arbennig o dda.

66 Mewn rhai achosion, mae athrawon yn defnyddio technoleg ddigidol yn dda i gynorthwyo â thasgau gwaith cartref. Mae athrawon wedi tueddu i symud oddi wrth osod gwaith cartref bob wythnos ac yn gosod tasg bob hanner tymor yn hytrach erbyn hyn. Mae hyn yn syniad da gan ei fod yn rhoi cyfle i atgyfnerthu agweddau ar y pedwar medr gwahanol. Un dull arall sydd wedi bod yn llwyddiannus yw pan fydd dysgwyr yn gallu mynd at ffeiliau electronig ar rwydwaith yr ysgol. Wedyn, gallant ymarfer geirfa a strwythurau, paratoi sgwrs a gwneud cyflwyniad llafar, yn ogystal ag ysgrifennu a chynhyrchu podlediadau. Mae hefyd yn cynnwys rhieni ym mhrofiad y dysgwr wrth iddo ddysgu iaith, gan fod y rhiant yn gallu ymarfer yr iaith ei hun a phrofi'r dysgwr ar lafar ar ei eirfa a'i ynganiad. Caiff hyn effaith dda gan ei fod yn ennyn diddordeb rhieni ac yn datblygu eu dealltwriaeth o ddysgu iaith.

## Asesu

67 At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cadw cofnodion cyfoes o gynnydd dysgwyr yn dda, ac maent yn marcio a safoni gwaith dysgwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw athrawon yn helpu dysgwyr i asesu eu dysgu eu hunain yn ddigon da.

68 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn asesu gwaith dysgwyr yn rheolaidd. Mewn llawer o achosion, maent yn addasu polisi marcio'r ysgol i gefnogi'r defnydd o'r iaith asesedig a sicrhau bod dysgwyr yn deall ymadroddion allweddol. Yn y rhan fwyaf o achosion,

mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion dargedau clir sydd wedi eu cysylltu'n briodol â disgrifiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae mwyafrif yr athrawon yn amlygu camgymeriadau mewn gwaith ysgrifenedig ac yn neilltuo amser mewn gwersi i edrych dros gamgymeriadau cyffredin gyda'r dosbarth cyfan. Mewn llawer o achosion, maent yn disgwyl i ddysgwyr ailedrych ar eu gwaith ysgrifenedig a chywiro camgymeriadau. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud ail wiriad i sicrhau bod dysgwyr wedi ymateb yn briodol.

69 Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cadw cofnodion da o gynnydd dysgwyr ac maent yn cymedroli a safoni gwaith dysgwyr yn rheolaidd gydag aelodau eraill o'r adran. Mewn rhai achosion, mae athrawon yn gweithio gydag athrawon o ysgolion eraill i gymharu a safoni deilliannau dysgwyr. Mantais hyn yw ei fod yn sicrhau athrawon eu bod yn llunio barnau priodol am lefel gwaith dysgwyr.

70 Fodd bynnag, mewn gormod o ystafelloedd dosbarth, nid yw athrawon yn defnyddio technegau sy'n helpu dysgwyr i asesu eu dysgu eu hunain yn ddigon effeithiol o ran gweithgareddau siarad, gwrando a darllen. Er y bydd athrawon yn aml yn defnyddio mecanweithiau, fel bodiau i fyny/bodiau i lawr, i asesu ymateb dysgwyr i weithgareddau, nid ydynt yn aml yn dadansoddi hunanasesiad dysgwyr yn fanwl mewn ffordd sy'n ystyrlon nac yn dylanwadu ar addysgu neu gyfeiriad y wers ar ôl hynny. Mae'r defnydd rheolaidd o dechnegau asesu ar gyfer dysgu wedi lleihau ers adroddiad diwethaf Estyn yn 2009.

## Yr amgylchedd dysgu

71 Bron ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r adran ieithoedd tramor modern wedi ei lleoli mewn ystafelloedd dosbarth sy'n agos at ei gilydd, ac mewn rhai achosion, maent yn agos at yr adrannau Cymraeg a Saesneg. Mewn achosion prin iawn, ceir mannau priodol y tu allan i'r ystafell ddosbarth lle gall disgyblion baratoi gwaith mewn parau a grwpiau. Mewn adeiladau mwy modern, mantais rhai timau staff yw bod ganddynt ystafell staff adrannol lle gallant gyfarfod a gweithio gyda'i gilydd. Mae'r mathau hyn o drefniadau yn ddefnyddiol o ran galluogi staff i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol a datblygu ethos adrannol clir a dulliau ar y cyd o addysgu a dysgu.

72 Mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth ieithoedd tramor modern yn eang ac yn caniatáu ar gyfer trefniadau amrywiol o ran byrddau a grwpiau o ddysgwyr. Fodd bynnag, mewn llawer o'r ystafelloedd dosbarth a welwyd, ni ddefnyddir y mannau'n dda, ac yn y rhan fwyaf o wersi, mae byrddau wedi eu trefnu mewn rhesi. Er bod y trefniant hwn yn cynorthwyo dysgwyr sy'n gweithio mewn parau yn gymharol hawdd, mae'n rhwystro gwaith grŵp effeithiol mewn dysgu iaith.

73 Bron ym mhob ystafell ddosbarth, mae athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r lle ar waliau i arddangos gwaith dysgwyr a darparu arddangosfeydd lliwgar sy'n cefnogi datblygiad gwybodaeth ramadegol dysgwyr. Mae gan y rhan fwyaf o ystafelloedd fyrddau gwyn rhyngweithiol, ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r rhain yn dda i gefnogi eu haddysgu. Mae gan y rhan fwyaf o ystafelloedd systemau TG sy'n cysylltu â rhwydwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r ysgol. Mae hyn yn

galluogi dysgwyr i ddefnyddio cyfrifiaduron a llechi electronig yn rheolaidd fel rhan o'u gwersi at ystod o ddibenion, fel gweithgareddau ymchwil, prosesu geiriau, llunio graffiau a thablau neu ddangos canlyniadau arolygon.

74 Bron ym mhob adran, mae yna ystod dda o adnoddau ar bapur i gefnogi dysgu ieithoedd tramor modern. Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau gwaith, cardiau a gemau, a gwerslyfrau modiwl a gynlluniwyd gan adrannau i gefnogi'r cwricwlwm.

## Arweinyddiaeth

### Rôl uwch arweinwyr

75 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr yn ceisio sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i ddysgu o leiaf un iaith dramor fodern hyd at lefel arholiad yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

76 Ar gyfartaledd, mae dysgwyr yn cael tair awr o ddysgu iaith dramor fodern ar draws amserlen pythefnos. Gallai hyn gynnwys dysgu ail iaith dramor fodern o'r dechrau ym Mlwyddyn 8 neu Flwyddyn 9. Fodd bynnag, mae hyn yn llai o amser na'r ddwy awr yr wythnos a argymhellwyd yn adroddiad diwethaf Estyn ar ieithoedd tramor modern.

77 Dywed bron pob un o'r penaethiaid ac uwch arweinwyr y cwricwlwm fod sicrhau cyfleoedd eang a chytbwys i ddysgwyr astudio ieithoedd tramor modern yn her oherwydd y gofyniad cynyddol i ddysgwyr sefyll dau arholiad mewn Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.

78 Dywed penaethiaid mewn ysgolion mwy eu bod yn gallu cynnig cyfleoedd ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 gan fod niferoedd y dysgwyr yn hyfyw. Mae'r amser a neilltuir i ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 4 fel arfer yn cyd-fynd â'r amser ar gyfer pynciau eraill nad ydynt yn rhai craidd. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ysgolion mwy, gall fod yn her cynnwys gwersi ar yr amserlen yn y diwrnod ysgol arferol ar gyfer dysgwyr sy'n astudio mwy nag un iaith dramor fodern, oherwydd yr amser cynyddol sydd ei angen ar bynciau craidd.

79 Mewn ysgolion sydd â niferoedd llai, mae'r her i ddarparu dewisiadau opsiwn eang a chytbwys yn llawer mwy. Y rheswm am hyn yw, mewn nifer gynyddol o achosion, mae mwy o bynciau'n cael eu cynnig mewn llai o golofnau dewisiadau, ac felly mae'r gystadleuaeth â phynciau eraill yn frwd. O ganlyniad, mae hyn yn aml yn golygu mai nifer fach iawn o ddysgwyr yn unig sy'n dewis parhau i astudio iaith dramor fodern hyd at lefel arholiad. O ganlyniad, mae yna nifer fach, ond arwyddocaol, o ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru lle mae iaith dramor fodern wedi cael ei thynnu o'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4. O ganlyniad, mae dysgu iaith dramor fodern yn mynd hyd yn oed yn llai pwysig yng ngolwg dysgwyr a rhieni.

80 Pan fydd uwch arweinwyr yn rhoi cyfle i grwpiau bach o ddysgwyr barhau i astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4, maent yn dod yn fwy creadigol yn y ffordd y maent yn trefnu'r amserlen. Yn aml, mae'r grŵp bach o ddysgwyr sydd eisiau parhau ag iaith dramor fodern yn mynychu dosbarthiadau cyn neu ar ôl yr

ysgol neu yn ystod yr egwyl amser cinio. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr ac athrawon yn treulio diwrnodau hwy yn yr ysgol ac nid yw hyn yn ffafriol i ddysgu ac addysgu effeithiol.

81 Mewn rhai achosion, mae penaethiaid yn caniatáu i grwpiau bach iawn o ddysgwyr fwrw ymlaen yng nghyfnod allweddol 4 gyda thargedau heriol ar gyfer yr adran a'i dysgwyr. Maent yn caniatáu'r ddarpariaeth hon nid yn unig i fodloni dymuniadau'r dysgwyr, ond hefyd fel bod y pwnc yn cael ei weld yn rhan o gwricwlwm cyfnod allweddol 4, gan obeithio y bydd yn annog mwy o ddysgwyr i astudio'r pwnc. Er nad yw hyn yn gost effeithiol, mantais hyn yw ei fod yn cynyddu statws ieithoedd tramor modern fel eu bod yn weladwy ar amserlen cyfnod allweddol 4.

82 I geisio bodloni dymuniadau dysgwyr, mae llawer o ysgolion bellach yn datblygu eu dewisiadau cyfnod allweddol 4 trwy ffafriaethau sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr, yn hytrach na datblygu colofnau dewisiadau llym, ac yn syml, cynnig set benodedig o ddewisiadau cyfyngedig i ddisgyblion. Mae'r dull blaenorol yn golygu heriau i uwch arweinwyr, ond ar y cyfan, mae hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr sydd eisiau astudio iaith dramor fodern yn gallu gwneud hynny.

83 O ganlyniad i'r niferoedd isel sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4, mae'r nifer sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar lefel UG a Safon Uwch yn gymharol fach. Mae penaethiaid, uwch arweinwyr a phenaethiaid adran yn priodoli hyn i'r ffaith fod dysgwyr yn aml yn teimlo ei bod yn anos cael graddau uwch mewn Safon Uwch mewn iaith dramor fodern ac y gallai hyn fod yn niweidiol i gael lle mewn prifysgol. Hefyd, pan nad oes niferoedd hyfyw ar gyfer dosbarth mewn ieithoedd tramor modern ar un safle ysgol, ond mae'n cael ei gynnig ar safle arall, mae'n achosi i ddysgwyr beidio â dilyn y cyrsiau gan fod rhaid iddynt deithio i'r safle arall. Mae trafodaethau gyda dysgwyr yn cefnogi'r safbwyntiau hyn hefyd.

84 Yn ychwanegol, ychydig iawn o gyfle sydd i ddysgwyr astudio iaith dramor fodern o'r dechrau ym Mlynyddoedd 12 ac 13 i ddarparu medr ychwanegol ar gyfer cyrsiau Safon Uwch dysgwyr.

**Rôl arweinwyr canol**

85 Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid adrannau ieithoedd tramor modern a'u timau yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y ddarpariaeth ieithoedd tramor modern yr hoffent ei chynnig. Fodd bynnag, yn gynyddol, nid oes gan adrannau ieithoedd tramor modern bolisi ysgrifenedig sy'n cysylltu'n benodol ag arferion addysgu'r adran. O ganlyniad, yn aml, nid oes polisi datganedig mewn perthynas â'r nodau a'r dulliau ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern y mae'r adran yn dymuno eu cyflwyno. Mae hyn yn cyfrif i ryw raddau am yr arfer a arsylwyd mewn llawer o ysgolion o'r anghydbwysedd rhwng pwyslais ar gyfathrebu llafar a rhyngweithiol a'r pwyslais mwy a roddir ar ymarferion ysgrifenedig a gramadeg, a diffyg dilyniant systematig i alluogi dysgwyr i ddatblygu meistrolaeth o'r iaith a mynegi eu hunain yn greadigol.

86 Mae gan bron bob adran gwricwlwm cynlluniedig ar gyfer ieithoedd tramor modern sy'n cysylltu'n dda â disgrifwyr lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y pedwar medr. Mae'r cwricwlwm yn aml yn canolbwyntio'n dda ar ystod o destunau, sy'n galluogi dysgwyr i siarad amdanyn nhw eu hunain, eu teuluoedd, eu hobïau a'u

diddordebau, gwyliau, ac ati. Mewn rhai achosion, mae'r cwricwlwm yn cynnwys testunau ehangach yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu am fyd gwaith, yr amgylchedd a materion eraill sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc, a'u trafod.

87 Yn yr achosion gorau, mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio i alluogi dysgwyr i ailedrych ar ac ymestyn iaith a strwythurau blaenorol ar adegau gwahanol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o adrannau yn unig y mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm fel hyn ac yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r iaith asesedig mewn trafodaethau bob dydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn golygu bod athrawon mewn gormod o ddosbarthiadau yn addysgu iaith drafodaethol sylfaenol yn unig i ddysgwyr, ac er bod dysgwyr yn aml yn dangos dealltwriaeth dda o gyfarwyddiadau athrawon, anaml y maent yn gofyn cwestiynau i'r athro neu'n gofyn am esboniadau gan yr athro gan ddefnyddio iaith darged gynyddol gymhleth. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n helpu i leihau'r amser y mae dysgwyr yn clywed a defnyddio'r iaith asesedig mewn gwersi ac mae'n cefnogi datblygu rhuglder llafar gwell.

88 Mae bron pob ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid adran weithio gyda chydweithwyr i lunio adroddiad hunanarfarnu. Mae penaethiaid adran ac uwch arweinwyr fel arfer yn trafod yr adroddiad hunanarfarnu ac yn gosod targedau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mewn llawer o achosion, mae'r targedau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar ganlyniadau a ragwelir mewn arholiadau ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio digon ar godi nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn iaith dramor fodern ar lefel TGAU neu Safon Uwch.

89 Er gwaethaf hyn, mae llawer o athrawon ieithoedd tramor modern yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol i helpu i annog dysgwyr i ddatblygu brwdfrydedd dros y pwnc ac felly'n dewis astudio iaith dramor fodern hyd at lefel arholiad. Mae gweithgareddau'n cynnwys clybiau iaith yn ystod amser cinio ac ar ôl yr ysgol, clybiau ffilmiau ieithoedd tramor, dathlu diwrnod ieithoedd Ewrop a threfnu teithiau i wledydd yr ieithoedd targed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae athrawon ieithoedd tramor modern wedi ail-ganolbwyntio teithiau i wledydd yr ieithoedd asesedig er mwyn cysylltu â gweithgareddau eraill. Er enghraifft, mae dysgwyr yn mynd dramor i ddysgu sut i goginio bwyd gwlad trwy gyfrwng yr iaith darged. Mae'r mathau hyn o weithgareddau yn helpu dysgwyr i ddeall yn well sut mae siarad iaith dramor fodern yn arwain at ystod ehangach o brofiadau gwerthfawr.

90 Ar y cyfan, mae'r arholiadau y bydd dysgwyr yn eu sefyll mewn ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU neu Safon Uwch, ac mae llawer o athrawon yn ystyried bod y naill a'r llall o'r rhain yn heriol yn academaidd. Mae rhai ysgolion yn defnyddio arholiadau eraill i drefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y gallai eu medrau fod yn gryfach mewn siarad, gwrando a darllen, ond nid yw hyn yn digwydd yn aml. Dywed llawer o athrawon nad ydynt yn teimlo bod ystod briodol o arholiadau ieithoedd tramor modern i ddarparu ar gyfer ystod gallu ehangach yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Byddai llawer o athrawon yn croesawu creu cwrs TGAU sy'n cysylltu dysgu iaith a medrau busnes, er enghraifft i ddenu dysgwyr o ystod gallu ehangach, a darparu ar eu cyfer.

## Agweddau dysgwyr

91 Fel rhan o'r arolwg hwn, siaradodd arolygwyr â grwpiau o ddysgwyr o Flwyddyn 9 a dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a ddewiswyd ar hap, yr oedd rhai ohonynt wedi dewis astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4, a rhai ohonynt heb ddewis gwneud hyn.

92 Dywedodd llawer o ddysgwyr Blwyddyn 9 eu bod yn hoffi dysgu ieithoedd a bod arnynt eisiau parhau i astudio iaith ym Mlwyddyn 10. Mynegodd y rhan fwyaf o ddysgwyr fod yn well ganddynt ddysgu Ffrangeg, tra mynegodd lleiafrif o ddysgwyr fod yn well ganddynt ddysgu Sbaeneg neu Almaeneg. Teimlai rhai dysgwyr, gan fod rhaid iddynt ddysgu Cymraeg fel pwnc craidd, y byddai dewis iaith arall yn lleihau yn ddiangen y dewisiadau pwnc eraill y gallent eu gwneud. Mewn rhai achosion, roedd gan ddysgwyr resymau clir iawn ynglŷn â pham roedd arnynt eisiau dewis pynciau eraill yn hytrach nag iaith dramor fodern.

93 Yn gyffredinol, roedd cyfweliadau arolygwyr â dysgwyr Blwyddyn 9 yn cael eu cynnal cyn i ddysgwyr wneud eu dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4. Roedd llawer o ddysgwyr o'r farn ei bod yn bwysig astudio iaith yng nghyfnod allweddol 4 gan y byddai'n cynyddu eu cyfleoedd i gael swydd neu sicrhau lle mewn prifysgol. Fodd bynnag, nid oed lleiafrif sylweddol o ddysgwyr yn gallu dweud pam y gallai astudio iaith hyd at lefel arholiad fod o werth. Roedd llawer o ddysgwyr a oedd yn siarad iaith heblaw Saesneg fel eu mamiaith yn ymwybodol iawn o fanteision dysgu iaith arall, ac yn aml y rheidrwydd i wneud hyn. Cyfyngedig oedd gwybodaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr Blwyddyn 9 y cyfwelwyd â nhw am y mathau o yrfaoedd y gallai'r gallu i siarad iaith arall fod o fantais ynddynt.

94 Roedd dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a oedd wedi dewis astudio iaith dramor fodern yn cynnig amrywiaeth o resymau dros wneud hynny. Roedd y rhain yn cynnwys eu cariad am y pwnc a'i ddefnyddioldeb o ran eu helpu i ddod o hyd i swydd neu sicrhau lle mewn prifysgol neu hyfforddiant. Roedd llawer o'r rheiny nad oeddent wedi dewis astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwneud hynny naill ai am nad oeddent wedi mwynhau'r pwnc yng nghyfnod allweddol 3, wedi gweld y pwnc yn anodd yng nghyfnod allweddol 3, yn teimlo bod y Gymraeg yn iaith yr un mor bwysig â'r rheiny sy'n cael eu dosbarthu yn ieithoedd tramor modern, neu eu bod, trwy beidio ag astudio iaith dramor fodern, wedi elwa trwy gael dewis gwell o bynciau eraill felly. Nid oedd llawer ohonynt wedi dewis astudio iaith dramor fodern gan fod y pwnc mewn colofn dewisiadau gyda phwnc arall yr oeddent wir eisiau ei astudio. At ei gilydd, cyfyngedig yn unig oedd dealltwriaeth dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 o'r gyrfaoedd y gallai medr siarad iaith arall fod yn ddefnyddiol ar eu cyfer. Yn yr un modd â dysgwyr Blwyddyn 9, yn gyffredinol, roedd y dysgwyr hynny a oedd yn siarad iaith heblaw Saesneg fel eu mamiaith yn gwerthfawrogi manteision siarad gwahanol ieithoedd yn fwy.

## Agweddau rhieni

95 Fe wnaeth arolygwyr wahodd dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4 i rannu eu safbwyntiau am ddysgu iaith dramor fodern (ymatebodd 103 o rieni disgyblion Blwyddyn 9 a 99 o rieni disgyblion Blwyddyn 10). Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg, sef:

- Mae rhieni o'r farn fod dysgu iaith dramor fodern yn ddefnyddiol ac y gallai arwain at ragolygon gwell o ran swyddi
- Byddai rhieni'n hoffi gweld dewis ehangach o ieithoedd tramor modern yn cael eu cynnig yng nghyfnod allweddol 4, fel Tsieinëeg, Mandarin ac Almaeneg, a oedd, yn eu barn nhw, yn cael eu defnyddio'n ehangach ym myd gwaith
- Mae rhieni o'r farn y dylai dysgwyr gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn teithiau cyfnewid tramor a rhaglenni profiad gwaith dramor i ennyn eu brwdfrydedd a'u helpu i ddatblygu eu medrau ieithyddol a'u medrau bywyd ehangach
- Hoffai rhieni weld y Gymraeg yn dod yn ddewisol yng nghyfnod allweddol er mwyn i ddysgwyr allu dewis astudio un iaith neu fwy, ond ieithoedd o'u dewis nhw

## Cyflenwad athrawon a datblygiad proffesiynol

96 Dywed penaethiaid mewn rhai ysgolion sydd wedi gwneud penodiadau mewn adrannau ieithoedd tramor modern yn ddiweddar eu bod wedi cael rhychwant priodol o ymgeiswyr i ddewis o'u plith, ar y cyfan. Dywed ysgolion ag adrannau ieithoedd tramor modern sydd â niferoedd uchel o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 na chawsant lawer o anhawster yn denu athrawon amlieithog cymwys i wneud cais am swyddi.

97 Ar y llaw arall, dywed penaethiaid ag adrannau ieithoedd tramor modern sydd ag ychydig iawn o ddysgwyr ieithoedd tramor modern, os o gwbl, yng nghyfnod allweddol 4 a/neu yn y sector ôl-16, a phenaethiaid yng ngorllewin Cymru, ei bod yn llawer anos recriwtio athrawon ar gyfer ieithoedd tramor modern. Yn eithaf aml, gall yr ieithyddion sy'n gwneud cais am y swyddi hyn gynnig un iaith dramor fodern yn unig. Mae hyn yn lleihau hyblygrwydd o ran cynllunio'r cwricwlwm a'r dewis i ddysgwyr.

98 Pryder ychwanegol yw bod canolfannau hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn 2014-2015 wedi gallu recriwtio 50% ar y mwyaf yn unig o'r cwota ar gyfer hyfforddeion ieithoedd tramor modern a ddyrannwyd iddynt gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Oherwydd y dirywiad difrifol yn nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern mewn ysgolion, mae digon o ieithyddion ieithoedd tramor modern yn y system ar hyn o bryd i fodloni anghenion presennol. Fodd bynnag, er mwyn cyflwyno'r strategaethau ar gyfer ieithoedd tramor modern yn nogfen 'Dyfodol byd-eang' Llywodraeth Cymru, sef sicrhau cenedl 'ddwyieithog a mwy', mae'n annhebygol y bydd y gweithlu presennol o ran addysgu ieithoedd tramor modern yn ddigonol i ehangu ieithoedd tramor modern i ysgolion cynradd.

99 Mae nifer yr ysgolion sy'n gallu penodi cynorthwyydd ieithoedd tramor modern ers adroddiad diwethaf Estyn wedi gostwng. Mae penaethiaid adrannau yn priodoli hyn i doriadau yng nghyllidebau ysgolion yn bennaf. Mae'r lleiafrif o ysgolion sy'n cyflogi cynorthwyydd ieithoedd tramor modern yn eu defnyddio â grwpiau arholi yn bennaf er mwyn cael yr effaith fwyaf. Serch hynny, mae rhai cynorthwywyr ieithoedd tramor yn helpu dysgwyr iau trwy gymryd rhan mewn clybiau allgyrsiol neu eu harwain.

100 Hyd at ddiwedd tymor yr haf 2015, roedd y rhan fwyaf o athrawon ieithoedd tramor modern yn caffael datblygiad proffesiynol naill ai yn sgil gweithio mewn grwpiau anffurfiol gyda chydweithwyr yn lleol neu mewn grwpiau iaith ar draws awdurdodau lleol i ddatblygu syniadau newydd a rhannu adnoddau, gan ymgymryd â hyfforddiant gyda CILT Cymru, Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd, neu gyrsiau a gynigir gan fyrddau arholi. Gall y rhan fwyaf o athrawon a fu'n rhan o rwydweithiau neu a oedd wedi cael hyfforddiant gan CILT Cymru neu fyrddau arholi esbonio'r hyn y gwnaethant ei ennill a'r modd y mae datblygiad proffesiynol o'r fath wedi eu helpu i gyflwyno syniadau a deunyddiau newydd i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, fe wnaeth llawer o ysgolion, gyda chymorth gan CILT Cymru, gynnal gweithgareddau llythrennedd triphlyg llwyddiannus gyda'r adrannau Cymraeg a Saesneg yn eu hysgolion a mesur effaith y gweithgaredd ar ddysgu eu disgyblion. O ganlyniad i hyn, mae llawer o ysgolion wedi addasu'r gweithgareddau a pharhau i gydweithio, gan baratoi ar gyfer y nodau a'r amcanion a amlinellir yn 'Dyfodol Llwyddiannus'.

101 O Fedi 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r consortia rhanbarthol gyflwyno'r weledigaeth a'r strategaethau newydd ar gyfer addysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru fel yr amlinellir yn 'Dyfodol byd-eang'. Ymwelodd arolygwyr ag ysgolion ledled Cymru ar gyfer yr arolwg hwn ar ddechrau tymor yr hydref 2015, pan oedd consortia rhanbarthol newydd nodi ysgolion yn ganolfannau rhagoriaeth a rhaglenni ar gyfer datblygiad proffesiynol. Ar y cyfan, mae athrawon ieithoedd tramor modern yn croesawu'r datblygiad hwn, yn enwedig i allu rhwydweithio â chydweithwyr mewn ysgolion eraill yn eu rhanbarth a thu hwnt. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar yn y broses i roi sylwadau ar effaith y strategaeth yn yr adroddiad hwn.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau ag ysgolion, craffu ar ddogfennau perthnasol a chyfweliadau gyda phenaethiaid, uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am y cwricwlwm, penaethiaid adrannau ieithoedd tramor modern, cynghorwyr gyrfa a dysgwyr o gyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio tystiolaeth arolygu am ansawdd y dysgu, yr addysgu a'r arweinyddiaeth mewn ieithoedd tramor modern, yn ogystal ag ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gofynnodd arolygwyr i ysgolion wahodd rhieni a ddewiswyd ar hap o Flwyddyn 9 yng nghyfnod allweddol 3 a Blynyddoedd 10 ac 11 yng nghyfnod allweddol 4 i ateb holiadur byr am eu dealltwriaeth o werth dysgu iaith dramor fodern, a'u hagweddau tuag at hyn. Roedd modd i rieni ateb yr holiadur gan ddefnyddio ffurflen bapur neu electronig. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth arolygu am ansawdd yr arweinyddiaeth hefyd.

Nododd arolygwyr sampl ar hap o ddau ddeg o ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn y sector uwchradd. Cynhaliwyd ymweliadau arolygwyr yn nhymor yr hydref 2015.

Yn ogystal, fe wnaeth arolygwyr ymweld â chynrychiolwyr arweiniol ar gyfer ieithoedd tramor modern yn y consortia rhanbarthol, a chasglu tystiolaeth ganddynt.

## Atodiad 2: Cyfeiriadau


Board, K. a Tinsley, T. (2015) *Ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.* Reading: Ymddiriedolaeth Addysg CfBT. [Ar-lein]. Ar gael o: https://wales.britishcouncil.org/sites/default/files/language_trends_wales_report_english.pdf [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2016] (Saesneg yn unig).

Donaldson, G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2016].

Estyn (2009) *Gwella ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru: Cyngor ac arweiniad ar arfer dda ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Gwella%20ieithoedd%20tramor%20modern%20yn%20ysgolion%20uwchradd%20Cymru%20-%20Gorffennaf%202009.pdf [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014) *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2016].

Llywodraeth Cymru, Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr (2015a) *Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015-2020.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/151019-global-futures-en.pdf [Defnyddiwyd 11 Ionawr 2016] (Saesneg yn unig).

Llywodraeth Cymru (2015b) *Asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau di-graidd: Cymru 2015.* SDR 128/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150818-national-curriculum-teacher-assessments-non-core-subjects-2015-en.pdf [Defnyddiwyd 07 Mawrth 2016] (Saesneg yn unig).

Llywodraeth Cymru (2015c) *Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED).* Heb ei chyhoeddi.

Llywodraeth Cymru (2015d) *Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, 2014/15 – Diwgiwyd.* SDR 199/2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/statistics/2015/151216-examination-results-2014-15r-cy.pdf [Defnyddiwyd 07 Mawrth 2016].

Llywodraeth Cymru (2015e) *Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU (disgyblion 15 oed yn unig) fesul grŵp pwnc a rhyw.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-4/gcseentriesandresultspupilsaged15only-by-subjectgroup-gender [Defnyddiwyd 07 Mawrth 2016].

Llywodraeth Cymru (2015f) *Ymgeisiadau a chanlyniadau lefel A (disgyblion 17 oed yn unig) fesul grŵp pwnc.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Advanced-Level-and-Equivalent/alevelentriesandresultspupilsaged17only-by-subjectgroup [Defnyddiwyd 07 Mawrth 2016].

Llywodraeth Cymru (2015g) Pynciau di-graidd cyfnod allweddol 3: *Canlyniadau fesul pwnc, rhyw a lefel.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-3-Non-Core-Subjects/results-by-subject-gender-level [Defnyddiwyd 07 Mawrth 2016].

Llywodraeth Cymru (2015h) *Cronfa Ddata Genedlaethol Disgyblion.* Heb ei chyhoeddi.

## Atodiad 3: Astudiaethau achos

**Astudiaeth achos 1: Defnyddio’r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol yn effeithiol i hyrwyddo dysgu iaith**

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Gymunedol Sirol y Porth. Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw tua 27%, sydd ymhell uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Mae 32.6% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 25.2% ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran addysg statudol, sef 5-15 oed.

Roedd dosbarth Sbaeneg Blwyddyn 10 yn gweithio ar sut i ddweud ble roeddent yn byw ac yn disgrifio eu llety. Yn y wers flaenorol, roeddent wedi dysgu’r eirfa a’r strwythurau allweddol trwy gyfres o ymarferion a oedd yn eu helpu i ddeall y geiriau ar lafar, a’u darllen yn ysgrifenedig. Roeddent wedi gweithio ar sicrhau eu bod yn ynganu’r geiriau’n gywir.

Yn y wers hon, roeddent yn dechrau datblygu eu hiaith fel y gallent siarad am eu llety eu hunain neu’u llety dychmygol. Er mwyn cynyddu eu geirfa a’u gramadeg ymhellach, fe wnaeth yr athro baratoi mynediad at drafodaeth ar safle cyfryngau cymdeithasol am lety ac at safleoedd gwerthwyr tai o Sbaen ar y rhyngrwyd.

Fe wnaeth y safle cyfryngau cymdeithasol alluogi disgyblion i ddarllen Sbaeneg gyfoes ar y testun, a oedd yn cynnwys ychydig o fratiaith ac iaith testun. Roedd y deunydd yn gofyn i’r disgyblion ddefnyddio eu gwybodaeth ieithyddol i ddarllen a deall y testun. Lle cafwyd geiriau anghyfarwydd, roedd yn rhaid i’r disgyblion ddefnyddio eu medrau ieithyddol i ddyfalu’r ystyr gan ddefnyddio eu dealltwriaeth am y cyd-destun a Sbaeneg yr oeddent wedi ei dysgu yn flaenorol. Bu disgyblion yn gweithio mewn parau ac yn rhannu eu syniadau.

Fe wnaeth safleoedd gwerthwyr tai o Sbaen roi ystod dda o eirfa estynedig i ddisgyblion, y gallent ei defnyddio i ddechrau llunio disgrifiad ar lafar o’u llety eu hunain neu lety dychmygol.

Fe wnaeth defnyddio cyfryngau cymdeithasol a’r rhyngrwyd i gefnogi dysgu disgyblion eu cymell i lunio disgrifiadau llafar da, ac ysgrifenedig yn y pen draw, o’u llety eu hunain neu lety dychmygol yn ogystal â rhoi ymadroddion Sbaeneg cyfoes iddynt.

**Astudiaeth achos 2: Defnyddio meddalwedd yn effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion a gwella'u dysgu**

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yn awdurdod lleol Bro Morgannwg yw Ysgol St Cyres. Mae tua 17.3% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Mae 29.9% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.2% ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran statudol, sef 5-15 oed.

Mae athrawon yn yr adran ieithoedd tramor modern yn St Cyres yn gwneud defnydd da o feddalwedd i baratoi deunydd addysgu, cwisiau a phrofion sy'n cymell disgyblion i ddysgu ystod o agweddau ar gaffael iaith.

Gall athrawon addasu'r deunyddiau ymlaen llaw i gyd-fynd â'r testun y maent yn ei addysgu. Mae gallu addasu'r deunydd yn golygu y gall athrawon ddefnyddio'r feddalwedd ar gyfer gwahanol ieithoedd a gallant addasu lefel yr anhawster yn briodol i lefel y dosbarth. Ar y lefel anoddaf, er enghraifft, gallent roi'r un frawddeg bedair gwaith gydag ychydig o amrywiadau yn y gramadeg. Mae hyn yn gwneud i'r disgyblion ganolbwyntio ar ba mor dda y maent yn deall y gramadeg o fewn cyd-destun.

Yn ystod gwersi, gall athrawon roi'r deunydd i fyny ar fyrddau gwyn rhyngweithiol a neilltuo amser pan fydd yn rhaid i'r disgyblion ateb y cwestiwn yn yr iaith, neu wneud dewis ynglŷn â'r ateb cywir. Gall disgyblion weld y cwestiynau ar lechi electronig hefyd. Gall disgyblion naill ai weithio mewn parau neu'n unigol i ddewis yr ateb cywir yn yr amser a neilltuwyd. Wedyn, gall yr athro roi adborth ynghylch faint o ddisgyblion yn y dosbarth a gafodd yr ateb yn gywir a gallant hefyd edrych ar ba mor dda oedd cyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft merched yn erbyn bechgyn.

Mae'r math hwn o weithgarwch yn boblogaidd iawn ymhlith disgyblion sy'n mwynhau cystadleugarwch y gweithgaredd ac mae disgyblion yn gwella eu medrau gramadegol yn dda.

**Astudiaeth achos 3: Symud o ddynwared i feistroli iaith dramor fodern**

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yn awdurdod lleol Merthyr yw Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley. Mae tua 22.5% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Mae 29.7% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 25.2% ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol, sef 5-15 oed.

Mae gan athrawon ieithoedd tramor modern yn Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac mae ganddynt ffocws clir iawn mewn gwersi iaith ar annog disgyblion, beth bynnag fo'u cyfnod dysgu a'u gallu, i ddefnyddio'r iaith asesedig cymaint ag y bo modd.

I feithrin hyn, mae arddangosfeydd ar y waliau mewn ystafelloedd dosbarth wedi eu gosod yn ystyriol ac maent yn atgoffa disgyblion am eirfa, strwythurau ieithyddol a gramadeg yn yr iaith asesedig. Defnyddir codau lliw er budd disgyblion i'w hatgoffa am derfyniadau berfau, cenedl enwau, ac ati. Mae athrawon yn mynd ati i annog disgyblion i ddefnyddio'r arddangosfeydd ar y waliau i gyfeirio atynt yn ystod gwersi p'un a ydynt yn siarad, yn darllen neu'n ysgrifennu yn yr iaith asesedig.

Yn nyddiau cynnar dysgu iaith, mae athrawon yn addysgu geirfa ac ymadroddion syml i ddisgyblion sy'n galluogi iddynt weithredu yn yr iaith asesedig yn yr ystafell ddosbarth. Wrth i ddisgyblion wneud cynnydd, mae athrawon yn eu cyflwyno i iaith fwy cymhleth y gellid ei defnyddio i weithio mewn ystafell ddosbarth ieithoedd tramor modern a siarad am ramadeg yn yr iaith asesedig. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando da ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddyfalbarhau, hyd yn oed pan fydd yr iaith y tu hwnt i'r lefel y maent wedi ei chyflawni hyd yn hyn. Mae athrawon yn rhoi sylw da i gywiro cam-ynganu yn yr iaith asesedig a sicrhau bod disgyblion yn gallu darllen ar goedd gyda goslef a mynegiant cywir yn yr iaith.

Wrth i'r dysgu fynd rhagddo, mae disgyblion yn dangos lefelau da o hyder a rhuglder wrth siarad yr iaith. Trwy gael eu hamlygu'n fwy i'r iaith asesedig yn yr amser sydd ar gael yn y wers fel hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud yn effeithiol trwy'r cam o ddynwared yr iaith i feistroli'r iaith; hynny yw, gallu defnyddio'r iaith asesedig yn annibynnol, yn greadigol ac at eu dibenion eu hunain.

**Astudiaeth achos 4: Rhoi gweithgareddau yn eu trefn i alluogi disgyblion i adeiladu eu medrau mewn ieithoedd tramor yn gynyddol**

Ysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yn awdurdod lleol Bro Morgannwg yw Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Mae tua 28.9% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 17.4%. Mae 28.2% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru, sef 25.2% ar gyfer yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol, sef 5-15 oed.

Mae athrawon yn Ysgol Gyfun Bryn Hafren yn cynllunio gwersi'n effeithiol i sicrhau bod y gweithgareddau yn adeiladu'n ddilyniannol ar ei gilydd i sgaffaldio dysgu'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o wersi yn nodweddiadol yn dechrau ag ymarferion cychwynnol cyflym sy'n helpu disgyblion i alw geirfa a strwythurau newydd i gof a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol. Mae'r ymarferion hyn yn ddefnyddiol o ran helpu i symbylu atgofion disgyblion a'u cael i ymgyfarwyddo ag iaith y dosbarth.

Pan fydd iaith newydd yn cael ei chyflwyno, mae athrawon yn cymryd amser i sicrhau bod disgyblion yn deall y gair neu'r strwythur ac yn gallu ei ynganu'n gywir. I sicrhau bod disgyblion nid yn unig yn ynganu'r gair yn gywir, ond yn gallu darllen y gair yn gywir, mae athrawon yn dangos y gair ysgrifenedig ochr yn ochr â'r ddelwedd y gallent ei defnyddio. Cyn caniatáu i ddisgyblion ymarfer mewn parau neu grwpiau, mae athrawon yn sicrhau y bydd yr arfer yn effeithiol trwy ddangos sut i ymarfer yr iaith gydag aelodau gwahanol o'r dosbarth.

Ar ôl cael cyfle i ymarfer yr iaith newydd, mae athrawon yn darparu gweithgareddau bwlch cyfathrebu ar gyfer disgyblion sy'n gofyn iddynt nid yn unig ddefnyddio'r iaith y maent newydd ei dysgu, ond hefyd i ddefnyddio'r iaith a ddysgwyd yn flaenorol. Ar yr adeg hon, mae ffocws da ar weithgareddau aml fedr fel arfer, er enghraifft darllen ac esbonio'r pwyntiau allweddol i rywun arall, dod o hyd i wybodaeth trwy ddarllen, gwrando ar, a/neu wylio paragraffau a/neu glipiau byr, wedi dilyn nodiadau ysgrifenedig i esbonio i rywun arall. Gweithgareddau rheoledig yw'r rhain ar hyn o bryd, a ddylai arwain at ddeilliannau tebyg yn seiliedig ar y deunyddiau.

Gellid dweud bod y camau hyn yn galluogi disgyblion i ddynwared yr iaith y maent yn ei dysgu. Fodd bynnag, mae'r camau nesaf yn helpu i ddatblygu meistrolaeth disgyblion o'r iaith.

Yn y cam nesaf, mae'r athro yn creu gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ymarfer iaith y testun, ond sydd hefyd yn darparu arweiniad tra'n caniatáu ymateb mwy personol i'r gwaith a osodwyd. Gallai'r athro osod y medr y caiff canlyniad y dasg ei fynegi ynddo – er enghraifft i gyflwyno adroddiad llafar, llunio taflen neu gynhyrchu cyfweliad radio am y pwnc.

Yn y cam olaf, mae'r athro'n cyflwyno her benagored i'r disgyblion yn seiliedig ar yr iaith y maent wedi bod yn ei dysgu. Mae hyn yn gyfle i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith y maent wedi ei dysgu yn y testun hwn a thestunau y maent wedi eu dysgu ymlaen llaw mewn ffordd greadigol. Er enghraifft, gellir gofyn i ddisgyblion wylio ffilm fer ac

ymateb iddi yn y ffordd y maent yn dewis – ysgrifennu adroddiad, ysgrifennu beirniadaeth, gwneud cyflwyniad llafar, neu ysgrifennu blog.

Mae’n bwysig iawn cynnwys y ddau gam hyn os yw disgyblion am allu defnyddio’r iaith y maent yn ei dysgu yn rhugl ac at eu dibenion eu hunain.

# Atodiad 4: Camau addysgu a dysgu wrth feistroli iaith dramor fodern

| Camau | | Gweithgared d | Gweithgaredd addysgu awgrymedig | Gweithgaredd dysgu awgrymedig | Gwahaniaethu | Cyfleoedd asesu ffurfiannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam 1 | **CRAIDD** | Mewnbwn | Cyflwyno geirfa a strwythurau newydd sy’n berthnasol i’r testun: ailadrodd ar lafar gyda ffocws cryf ar ynganiad a goslef, gan ddechrau â phrosesau gwybyddol bob tro; darllen geirfa a strwythurau newydd ar goedd gyda ffocws cryf ar gysylltu seiniau’r iaith â’r gair ysgrifenedig; gwrando ar eirfa a strwythurau newydd, a’u darllen, i’w hadnabod | **Ailadrodd** ar ôl yr athro mewn grwpiau, parau, yn unigol gan ganolbwyntio ar ddynwared y seiniau; **mewnoli** geirfa a strwythurau trwy sillafu yn wyddor yr iaith darged; **darllen** geirfa a strwythurau **ar goedd** i ddatblygu dealltwriaeth o seiniau’r iaith mewn perthynas â’r gair ysgrifenedig; **gweithgareddau medrau cymysg – gwrando a darllen** i weddu i eirfa a strwythurau newydd; **gwrando ac ysgrifennu** i gadarnhau dealltwriaeth a chywirdeb sillafu geirfa a strwythurau newydd | Yn ôl canlyniad a chymorth yn bennaf | Gallu dysgwyr i **ynganu** geirfa a strwythurau newydd yn dda yn unol â rheolau ynganu’r iaith Gallu dysgwyr i **adnabod** yr eirfa a’r strwythurau newydd trwy glywed ac ar ffurf ysgrifenedig Gallu dysgwyr i **ddarllen** geirfa a strwythurau newydd **ar goedd** yn unol â rheolau’r iaith darged Gallu **adnabod ac ysgrifennu** geirfa a strwythurau newydd yn yr iaith darged |
| Cam 2 | **CRAIDD** | Ymarfer | Ystod o weithgareddau medrau cymysg cyfathrebol (ffocws allweddol ar siarad a gwrando) i alluogi disgyblion i ymarfer geirfa a strwythurau newydd nes eu bod yn gadarn. Er enghraifft: Gwaith pâr/gwaith grŵp: gwaith llafar/gwrando/darllen gan ddefnyddio cerdyn neu sbardunau ar lechi electronig sy’n canolbwyntio ar eirfa a strwythurau newydd, fel holi ac ateb, gêm Kim, paru, gemau dyfalu, snap | **Ymarferion gwaith pâr/gwaith grŵp** sy’n gofyn i ddysgwyr ymarfer geirfa a strwythurau newydd a ddysgwyd – er enghraifft, gwaith pâr sy’n defnyddio cardiau geiriau a/neu gardiau gweledol i sbarduno **cwestiynau llafar ac atebion mewn brawddegau llawn yn yr iaith ymarferion gwrando a darllen** i wahaniaethu rhwng geirfa a strwythurau newydd, cadarnhau dealltwriaeth o ystyr (atebion trwy ddewis geiriau/ymadroddion allweddol yn yr iaith asesedig, trwy ddewis sbardunau gweledol, trwy wneud nodiadau ar grid, ac ati, trwy | Yn ôl canlyniad a chymorth yn bennaf | Gallu dysgwyr i **adnabod a deall** geirfa a strwythurau newydd trwy wrando a darllen **pan gaiff geirfa a strwythurau newydd eu cyfuno mewn ffyrdd gwahanol**. Gallu dysgwyr i ddefnyddio **ffurf ysgrifenedig geirfa a strwythurau newydd** mewn gwahanol ffyrdd sy’n dangos **gallu i greu paragraffau ysgrifenedig byr a chydlynus**. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ysgrifennu atebion un gair neu frawddegau llawn yn Saesneg) **ymarferion ysgrifennu** yn yr iaith asesedig – arddweud geiriau/ymadroddion, defnyddio sbardunau dilyniant (geiriau a/neu sbardunau gweledol) i ysgrifennu paragraffau byr gan ddefnyddio'r iaith allweddol sy'n cael ei dysgu. **Ymarferion cau'r bwlch –** cwblhau paragraff trwy ei lenwi â'r gair neu'r ymadrodd coll **Rhoi cardiau yn eu trefn gyda'r iaith darged ysgrifenedig** i wneud paragraffu cydlynus | | |
| Cam 3 | **CRAIDD** | Atgyfnerthu | Ystod o weithgareddau sy'n gofyn i ddisgyblion ddefnyddio geirfa a strwythurau newydd mewn ffordd fwy estynedig – gweithgareddau chwarae rôl hwy sy'n cyfuno'r elfennau, darnau gwrando a darllen hwy i ddeall, tasgau sy'n gofyn i ddisgyblion ysgrifennu paragraffau, adroddiadau byr | Amlygu **i ymarferion gwrando a darllen hwy** sy'n **ymgorffori geirfa a strwythurau hŷn a rhai a ddysgwyd yn ddiweddar** – gwaith pâr a gwaith grŵp sy'n defnyddio gweithgareddau, fel darllen jig-so a darllen. **Cyflwyniadau llafar mewn pâr** sy'n gynnyrch yr ymarferion gwrando a darllen ac **yn cael eu cofnodi gan ddisgyblion (nodiadau yn unig/dim ysgrifennu paragraffau yn llawn!)** | Yn ôl canlyniad a chymorth yn bennaf | Gallu dysgwyr i ddeall a mynegi syniadau **sy'n cyfuno geirfa a strwythurau newydd a rhai a ddysgwyd yn flaenorol yn effeithiol ar gyfer ystyr cydlynus gyda ffocws allweddol ar gyflwyniad llafar**<br><br>Cyfleoedd ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion |
| Cam 4 | **DATBLYGIAD** | Dilyniant | **Ystod o dasgau strwythuredig/wedi'u sbarduno, ond sy'n fwy penagored** sy'n gofyn i ddysgwyr arfer eu dewis eu hunain wrth ddefnyddio geirfa a strwythurau newydd a rhai a ddysgwyd yn flaenorol. Mae **angen mwy o wahaniaethu penodol yn ôl tasg** yn y cam hwn i | **Carwsél o weithgareddau efelychiadol gyda chyfarwyddiadau clir i ganfod gwybodaeth am y testun**. **Gallai dysgwyr weithio'n unigol neu mewn parau/grwpiau i rannu eu gwybodaeth i gwblhau'r dasg gyfan.** Er enghraifft, gallai'r ffocws fod ar ddamwain ffordd: mae dysgwyr yn gwrando ar ddatganiad wedi'i recordio gan dyst, yn gwylio | Yn ôl tasg yn bennaf. Yn ôl ystod gallu yn y dosbarth, efallai y bydd angen cynhyrchu'r un dasg mewn sawl ffurf i ddarparu mwy neu lai o sbardunau ar gyfer dysgwyr o wahanol lefelau gallu. | Gallu dysgwyr **i ddeall iaith newydd ac iaith a ddysgwyd yn flaenorol mewn gwahanol fformatau, ac o ganlyniad i ddeall, llunio eu cyflwyniad llafar dan arweiniad eu hunain neu ysgrifennu mewn genre penodol, gan ddangos eu dealltwriaeth o gynulleidfa** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | sicrhau bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn y dosbarth yn cael eu herio yn unol â'u galluoedd. Mae'n cynnwys dysgwyr yn cael eu hamlygu i weithgareddau aml fedr gyda diben go iawn – er enghraifft, canfod rhywbeth ac adrodd arno ar lafar a/neu yn yr iaith asesedig yn ysgrifenedig. | ffilm fer o rywun a oedd yno yn dweud beth ddigwyddodd, darllen dau adroddiad gan dystion, y bydd y naill a'r llall ohonynt yn cynnwys elfennau o'r un wybodaeth, ond elfennau gwahanol hefyd. **Canlyniad** y dasg yw bod y **dysgwr yn ysgrifennu/cyflwyno adroddiad llafar am y ddamwain ar gyfer y papur newydd, sy'n cynrychioli gwahanol safbwyntiau a gafwyd o wahanol adroddiadau gan dystion.** Wrth ymgymryd â'r mathau hyn o dasgau, mae angen i ddysgwyr ganolbwyntio hefyd ar ddatblygu **medrau hanfodol a medrau ehangach:** datrys problemau, gwneud nodiadau, defnyddio geiriaduron, ymchwil, dadansoddi testun, drafftio gwaith ysgrifenedig mewn arddull adroddiad, ar gyfer cyflwyniadau llafar – llais, ynganiad, goslef, ffeithiau allweddol, ac ati. | | Cyfleoedd i asesu cymhwyso gwybodaeth ramadegol<br><br>Cyfleoedd ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion |
| Cam 5 | **ESTYNIAD** | Her | | Mae'r cam hwn yn cynnwys mwy o ffocws ar ddysgwyr yn gweithio'n annibynnol. **Tasgau penagored wedi eu cefnogi gan gronfa o ddeunyddiau a/neu gyfeiriadau ar y rhyngrwyd sy'n gofyn i ddysgwyr ddefnyddio pob un o'r pedwar medr iaith i ddatblygu eu hatebion creadigol eu hunain trwy'r cyfrwng y maent yn ei ddewis** – er enghraifft, cyflwyniadau llafar, cyflwyniadau ysgrifenedig (e.e. adroddiadau, drama, ysgrifennu dyddiadur, ysgrifennu stori ar gyfer plant/pobl | Trwy dasg benagored yn bennaf sy'n caniatáu ar gyfer dawn greadigol Yn dibynnu ar allu dysgwyr, gallai athrawon fod yn dymuno cael cronfa â chodau lliw o dasgau sydd wedi eu gwahaniaethu ar gyfer y disgyblion lleiaf abl, cyffredin a mwyaf abl yn y | Cyfleoedd i **asesu graddau llawn gallu dysgwyr i ddeall, cymhwyso eu gwybodaeth a chynhyrchu deilliannau strwythuredig a chreadigol yn yr iaith darged**, yn ogystal â'r gallu i **gymhwyso medrau hanfodol ac ehangach, yn enwedig mewn gweithio'n annibynnol**. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ifanc yn eu harddegau), animeiddio, celf, barddoniaeth, ffilm.<br>Gallai tasgau gynnwys pethau fel sbardunau llun y mae dysgwyr yn adrodd stori amdanynt, ymchwil pellach am destun sy'n gysylltiedig â'r un y maent wedi bod yn ei astudio, testun sy'n agos i'r un y maent wedi bod yn ei astudio, ac ati<br>**Dylid annog dysgwyr i gymhwyso eu holl wybodaeth bynciol yn y dasg hon a defnyddio eu hystod lawn o'r iaith darged.** | dosbarth.<br><br>**Ar gyfer y dysgwyr mwyaf abl, dylai deunyddiau ymestyn dysgwyr ychydig, fel bod yn rhaid iddynt gymhwyso medrau lefel uwch mewn dysgu iaith.** | |
| Cam 6 | | Asesu Crynodol | Ystod o weithgareddau sy'n defnyddio pob un, neu rai, o'r pedwar medr iaith fel y bo'n briodol i brofi dealltwriaeth a gallu dysgwyr i gymhwyso'r wybodaeth a'r medrau a gafwyd yn y modiwl/testun yn effeithiol | | Yn ôl tasg a chanlyniad | Mae arweiniad asesu clir ar waith i farcio a chymedroli |

# Atodiad 5: Canlyniadau holiaduron ar gyfer rhieni dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4

**Safbwyntiau rhieni disgyblion Blwyddyn 9**

Mae bron pob un o blant y 103 o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn dysgu iaith dramor fodern yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni Blwyddyn 9 hyn yn credu ei bod yn bwysig i'w plentyn allu dysgu iaith dramor fodern yn yr ysgol uwchradd. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd am hyn oedd y gallai wella cyfleoedd cyflogaeth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am ddiwylliannau eraill a bod yn ddefnyddiol wrth deithio yn y dyfodol.

Roedd y rhieni a oedd yn ansicr, neu nad oeddent yn credu ei bod yn bwysig i'w plentyn ddysgu iaith dramor fodern yn yr ysgol, yn teimlo bod pynciau eraill yn bwysicach, nad oedd gan eu plentyn unrhyw ddiddordeb mewn dysgu'r ieithoedd a gynigir, nad oeddent yn gweld gwerth eu dysgu gan fod 'y rhan fwyaf o wledydd yr ydym yn masnachu â nhw yn siarad Saesneg' neu roeddent yn ansicr ynghylch a fyddai'n fuddiol yn y dyfodol gan fod eu plentyn yn ansicr ynglŷn â'u cynlluniau gyrfa.

<u>Dewisiadau iaith</u>

Pan ofynnwyd iddynt pa dair iaith fyddai fwyaf defnyddiol i'w dysgu yn eu barn nhw, roedd rhieni o'r farn mai'r rhain fyddai Ffrangeg (76%) a Sbaeneg (74%), wedi'u dilyn gan Almaeneg (46%) a Tsieinëeg (Mandarin) (41%).

Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd yn ategu'r dewisiadau hyn oedd bod yr ieithoedd hyn yn bwysig ar gyfer busnes byd-eang a chysylltiadau masnach a byddent felly'n gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol, cânt eu siarad yn helaeth o gwmpas y byd, maent yn ddefnyddiol ar gyfer teithio yn y dyfodol neu am fod y wlad sy'n siarad yr iaith honno yn agos yn ddaearyddol at y Deyrnas Unedig.

<u>Cyngor ar yrfaoedd</u>

Dywedodd y rhan fwyaf o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg nad oeddent wedi cael unrhyw gyngor gan yr ysgol yn ymwneud â defnyddioldeb posibl ieithoedd tramor modern yn y dyfodol. O'r nifer fach o rieni a oedd wedi cael cyngor ar yrfaoedd, roedd hyn naill ai drwy noson ddewisiadau yn yr ysgol, trafodaethau ag athrawon, swyddog gyrfaoedd ysgol neu ffrindiau, y ganolfan waith neu eu plentyn a gafodd gyngor yn ystod sesiwn yrfaoedd yn yr ysgol.

<u>Agweddau tuag at ddysgu iaith dramor fodern</u>


Roedd mwyafrif y rhieni (65%) o'r farn fod eu plentyn yn mwynhau dysgu iaith dramor fodern ac yr hoffent barhau i astudio'r iaith yng nghyfnod allweddol 4. Ymatebodd 10% arall o rieni trwy ddweud yr hoffai eu plentyn barhau i astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4 er ei fod yn gweld hyn yn heriol, ac roedd 4% o ymatebwyr o'r farn y byddai eu plentyn yn parhau i ddysgu iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4 er nad oeddent yn mwynhau hyn. Ychydig o rieni yn unig (11%) a ddywedodd na fydd eu plentyn yn parhau i ddysgu iaith dramor fodern am nad ydynt yn mwynhau hyn.

**Safbwyntiau rhieni disgyblion Blwyddyn 10**

Dewisiadau ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4

O'r 99 rhiant a ymatebodd sydd â phlentyn yng nghyfnod allweddol 4, dywedodd 71% fod eu plentyn yn astudio iaith dramor fodern fel dewis arholiad. Yr ieithoedd mwyaf cyffredin oedd yn cael eu hastudio i lefel arholiad oedd Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Roedd llawer (87%) o'r rhieni hynny yr oedd eu plentyn yn astudio iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4 yn credu bod hyn yn bwysig. Roedd 9% arall ohonynt yn ansicr ac nid oedd 4% ohonynt yn ei ystyried yn bwysig.





Ffynhonnell: Data arolwg Estyn, 2015.

Dywedodd llawer o rieni ei bod yn fuddiol i'w plentyn ddysgu iaith dramor fodern am amrywiaeth o resymau. Roedd y rhain yn cynnwys ehangu gorwelion dysgwyr ar gyfer y dyfodol, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth, gwella eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill, bod yn ddefnyddiol wrth deithio neu wneud cais i brifysgol, datblygu ymwybyddiaeth o ddatblygiad iaith, cael addysg eang a datblygu medrau trosglwyddadwy a chyflenwol.

Cododd rhai rhieni bryderon am nifer gyfyngedig y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 oherwydd nifer y pynciau gorfodol, a dywedodd ychydig iawn ohonynt eu bod yn teimlo y byddai eu plentyn wedi dewis astudio iaith dramor fodern pe bai ganddynt fwy o ddewisiadau. Dywedodd rhai rhieni eraill yn benodol fod natur orfodol y Gymraeg yn cyfrannu at y ffaith nad yw eu plentyn ddim yn astudio iaith dramor fodern.

Agweddau tuag at barhau i ddysgu iaith dramor fodern ar lefel Safon Uwch

Byddai tua hanner (55%) o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg y mae eu plant yn dysgu iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4 yn hoffi i'w plentyn barhau i astudio iaith dramor fodern ar lefel Safon Uwch.  Ni fynegwyd unrhyw ffafriaeth gan 39% arall.





Ffynhonnell: Data arolwg Estyn, 2015

Roedd rhieni o'r farn y byddai'n fuddiol ar gyfer dewisiadau gyrfa yn y dyfodol, ehangu gorwelion dysgwyr, a gwella dewisiadau astudio dysgwyr yn y dyfodol. Dywedodd rhai rhieni mai dewis eu plentyn fyddai hyn.  Ychydig iawn o rieni yn unig a ddywedodd yn eglur y byddent yn annog eu plentyn i barhau i astudio iaith dramor fodern ar lefel Safon Uwch.

Dywedodd llawer o'r rhieni a ymatebodd eu bod naill ai'n ansicr neu nid oedd arnynt eisiau i'w plentyn barhau i astudio iaith dramor fodern ar lefel Safon Uwch mai dewis y plentyn oedd p'un a yw am barhau i astudio iaith dramor fodern ai peidio, neu y byddai eu plentyn yn rhoi blaenoriaeth i bynciau eraill a oedd yn fwy perthnasol i'w dewis o yrfa.

Agweddau tuag at ddysgu iaith dramor fodern ym Mlwyddyn 12

Dywedodd lleiafrif (44%) o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg y byddent yn hoffi i'w plentyn gael cyfle i ddechrau dysgu iaith dramor fodern newydd ym Mlynyddoedd 12 ac 13.




Ffynhonnell: Data arolwg Estyn, 2015

Roedd y rhieni hynny a nododd yr hoffent i'w plentyn gael cyfle i ddechrau dysgu iaith newydd o'r farn y byddai eu plentyn yn datblygu medrau ieithyddol y gellir eu trosglwyddo i sefyllfaoedd eraill, a'i weld yn ddefnyddiol ar gyfer cyfleoedd teithio a chyflogaeth yn y dyfodol. Byddai mwyafrif (62%) y rhieni hyn yn hoffi i'w plentyn gael cyfle i ddysgu Sbaeneg. Dewisiadau poblogaidd eraill oedd Ffrangeg (31%), Almaeneg (31%), Tsieinëeg (Mandarin) (24%) ac Eidaleg (21%).

Codwyd pryderon gan y rhieni hynny a nododd eu bod yn ansicr, neu nad oedd arnynt eisiau i'w plentyn gael cyfle i ddysgu iaith newydd, ynglŷn â'r pwysau gwaith ychwanegol y byddai'n ei roi ar eu plentyn, roedd yn well ganddynt i'w plentyn ddysgu un iaith yn fanwl i fagu eu hyder, roeddent o'r farn fod y dewis presennol o ieithoedd yn rhy gyfyngedig, neu roeddent eisiau i'w plentyn ganolbwyntio ar bynciau eraill sy'n fwy perthnasol i'w gyrfa.

# Ieithoedd tramor modern ym Mlwyddyn 9

Eleni, mae Estyn yn cynnal arolwg i gasglu gwybodaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ieithoedd tramor modern yng Nghymru, agweddau disgyblion a rhieni at ddysgu iaith dramor fodern a'r modd y gallai dysgu iaith arall gyfrannu at gyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r arolwg byr hwn yn archwilio agweddau rhieni at ddysgu iaith dramor fodern, a dylai gymryd llai na 10 munud i'w lenwi. Bydd yr holl atebion yn ddienw a byddwn yn adrodd ar y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r holiadur yn unig. Ni fydd modd adnabod unrhyw sylw nac unigolyn ar unrhyw adeg. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn yn haf 2016. At ddibenion yr arolwg hwn, nid ydym yn cyfrif y Gymraeg fel iaith dramor fodern gan ei bod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm presennol.

**1. A yw eich mab/merch yn dysgu iaith dramor fodern yn yr ysgol ar hyn o bryd?**

☐ Ydy (ewch i gwestiwn 2) ☐ Nac ydy (ewch i gwestiwn 3)

**2. Os gwnaethoch chi ateb 'ie' i gwestiwn 1, pa iaith/ieithoedd y mae eich plentyn yn ei/eu dysgu yn yr ysgol ar hyn o bryd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol).**

☐ Tsieinëeg (Mandarin) ☐ Tsieceg ☐ Ffrangeg ☐ Almaeneg ☐ Groeg ☐ Hindi

☐ Eidaleg ☐ Pwyleg ☐ Portiwgeeg ☐ Rwmaneg ☐ Rwsieg ☐ Sbaeneg

☐ Tyrceg ☐ Wrdw ☐ Arall (nodwch): ___________________________________

**3. A ydych yn credu ei bod yn bwysig i'ch mab/merch allu dysgu iaith dramor fodern yn yr ysgol uwchradd?**

☐ Ydw (ewch i gwestiwn 4) ☐ Nac ydw (ewch i gwestiwn 5) ☐ Ansicr (ewch i gwestiwn 4)

Rhowch eich rhesymau dros eich ateb

☐

**4. Pa iaith dramor fodern/ieithoedd tramor modern fyddai fwyaf defnyddiol i'ch mab/merch ei dysgu/eu dysgu, yn eich barn chi? (Dewiswch hyd at 3 iaith).**

☐ Tsieinëeg (Mandarin) ☐ Tsieceg ☐ Ffrangeg ☐ Almaeneg ☐ Groeg ☐ Hindi

☐ Eidaleg ☐ Pwyleg ☐ Portiwgeeg ☐ Rwmaneg ☐ Rwsieg ☐ Sbaeneg

☐ Tyrceg ☐ Wrdw ☐ Arall (nodwch): ___________________________________

Esboniwch pam mai'r iaith/ieithoedd a ddewiswyd gennych uchod fyddai fwyaf defnyddiol i'ch mab/merch ei dysgu/eu dysgu, yn eich barn chi?

☐

**5. A ydych chi wedi cael unrhyw gyngor am unrhyw swyddi neu yrfaoedd y byddai gallu siarad iaith dramor fodern yn ddefnyddiol ar eu cyfer?**

☐ Ydw (ewch i gwestiwn 6) ☐ Nac ydw (ewch i gwestiwn 8)

**6. Os gwnaethoch chi ateb 'ydw' i gwestiwn 5, pwy a ddarparodd y wybodaeth neu'r cyngor ynghylch swyddi neu yrfaoedd y cyfeirir atynt yn y cwestiwn blaenorol?**

☐

**7. Pa mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth a gawsoch?**

☐ Defnyddiol iawn ☐ Eithaf defnyddiol ☐ Ddim yn ddefnyddiol iawn ☐ Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

**8. Sut byddech chi'n disgrifio agwedd eich mab/merch at ddysgu iaith dramor fodern?**

- [ ] Mae'n mwynhau dysgu iaith dramor fodern ac fe hoffai barhau yng nghyfnod allweddol 4
- [ ] Mae'n mwynhau dysgu iaith arall, ac er ei fod/bod yn ei gweld yn anodd, fe hoffai barhau yng nghyfnod allweddol 4
- [ ] Mae'n mwynhau dysgu iaith arall ond yn ei chael yn anodd ac felly ni fydd yn parhau yng nghyfnod allweddol 4
- [ ] Nid yw'n mwynhau dysgu iaith arall ac ni fyddai'n hoffi parhau yng nghyfnod allweddol 4
- [ ] Nid yw'n mwynhau dysgu iaith arall ond fe hoffai barhau i gyfnod allweddol 4 gan ei fod/bod yn credu y bydd yn ddefnyddiol
- [ ] Nid oes ganddo/ganddi unrhyw ffafriaeth
- [ ] Nid yw'n dysgu iaith ar hyn o bryd

Gadewch unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn isod

**9. Gadewch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ynglŷn ag ieithoedd modern tramor yn yr ysgol isod.**

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i lenwi'r arolwg hwn.

Bydd yr adroddiad terfynol ar ieithoedd tramor modern yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016 ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

## Ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4

Eleni, mae Estyn yn cynnal arolwg i gasglu gwybodaeth am ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ieithoedd tramor modern yng Nghymru, agweddau disgyblion a rhieni at ddysgu iaith dramor fodern a'r modd y gallai dysgu iaith arall gyfrannu at gyflogaeth yn y dyfodol. Mae'r arolwg byr hwn yn archwilio agweddau rhieni at ddysgu iaith dramor fodern, a dylai gymryd llai na 10 munud i'w lenwi. Bydd yr holl atebion yn ddienw a byddwn yn adrodd ar y negeseuon allweddol sy'n deillio o'r holiadur yn unig. Ni fydd modd adnabod unrhyw sylw nac unigolyn ar unrhyw adeg. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Estyn yn haf 2016. At ddibenion yr arolwg hwn, nid ydym yn cyfrif y Gymraeg fel iaith dramor fodern gan ei bod yn rhan orfodol o'r cwricwlwm presennol.

**1. A yw eich mab/merch yn dysgu iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 4 ar hyn o bryd?**

☐ Ydy (ewch i gwestiwn 2) ☐ Nac ydy (ewch i gwestiwn 5)

**2. Os gwnaethoch chi ateb 'ie' i gwestiwn 1, pa iaith/ieithoedd y mae eich mab/merch yn ei/eu dysgu yn yr ysgol ar hyn o bryd? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol).**

☐ Tsieinëeg (Mandarin) ☐ Tsieceg ☐ Ffrangeg ☐ Almaeneg ☐ Groeg ☐ Hindi

☐ Eidaleg ☐ Pwyleg ☐ Portiwgeeg ☐ Rwmaneg ☐ Rwsieg ☐ Sbaeneg

☐ Tyrceg ☐ Wrdw ☐ Arall (nodwch): ________________________________

**3. A ydych yn credu ei bod yn bwysig i'ch mab/merch allu astudio iaith dramor fodern ym mlynyddoedd 10 ac 11?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ansicr

Rhowch eich rhesymau dros eich ateb

☐

**4. A oeddech chi eisiau i'ch mab/merch barhau i ddysgu iaith dramor fodern ym mlynyddoedd 10 ac 11?** (Yna ewch i gwestiwn 6)

☐ Oeddwn ☐ Nac oeddwn ☐ Dim ffafriaeth

Rhowch eich rhesymau dros eich ateb

☐

**5. Os gwnaethoch chi ateb 'nac ydw' i gwestiwn 2, a fyddech chi'n hoffi gweld eich mab/merch yn parhau i astudio iaith dramor fodern ar lefel Safon Uwch?**

☐ Bydden ☐ Na fydden ☐ Dim ffafriaeth

Rhowch eich rhesymau dros eich ateb

☐

**6. A fyddech chi'n hoffi i'ch mab/merch gael cyfle i ddechrau dysgu iaith fodern newydd ym mlynyddoedd 12 ac 13?**

☐ Bydden (ewch i gwestiwn 7) ☐ Na fydden (ewch i gwestiwn 8) ☐ Dim ffafriaeth (ewch i gwestiwn 8)

Rhowch eich rhesymau dros eich ateb

☐

**7. Os gwnaethoch chi ateb 'ie' i gwestiwn 6, pa iaith/ieithoedd fyddech chi'n hoffi i'ch mab/merch gael cyfle i ddechrau ei/eu dysgu ym mlwyddyn 12? (Dewiswch hyd at 3).**

☐ Tsieinëeg (Mandarin) ☐ Tsieceg ☐ Ffrangeg ☐ Almaeneg ☐ Groeg ☐ Hindi

☐ Eidaleg ☐ Pwyleg ☐ Portiwgeeg ☐ Rwmaneg ☐ Rwsieg ☐ Sbaeneg

☐ Tyrceg ☐ Wrdw ☐ Arall (nodwch): ____________________

Esboniwch pam yr hoffech i'ch plentyn gael cyfle i ddysgu'r iaith/ieithoedd a ddewiswyd gennych

**8. A ydych chi wedi cael unrhyw gyngor am unrhyw swyddi neu yrfaoedd y byddai gallu siarad iaith dramor fodern yn ddefnyddiol ar eu cyfer?**

☐ Ydw (ewch i gwestiwn 9) ☐ Nac ydw (ewch i gwestiwn 11)

**9. Os gwnaethoch chi ateb 'ydw' i gwestiwn 8, pwy a ddarparodd y wybodaeth neu'r cyngor ynghylch swyddi neu yrfaoedd y cyfeirir atynt yn y cwestiwn blaenorol?**

**10. Pa mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth a gawsoch?**

☐ Defnyddiol iawn ☐ Eithaf defnyddiol ☐ Ddim yn ddefnyddiol iawn ☐ Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

**11. Sut byddech chi'n disgrifio agwedd eich mab/merch at ddysgu iaith dramor fodern?**

☐ Mae'n mwynhau dysgu iaith dramor fodern ac fe hoffai barhau i Safon Uwch

☐ Mae'n mwynhau dysgu iaith arall, ac er ei fod/bod yn ei gweld yn anodd, fe hoffai barhau yng nghyfnod allweddol i Safon Uwch

☐ Mae'n mwynhau dysgu iaith arall ond yn ei chael yn anodd ac felly ni fydd yn parhau i Safon Uwch

☐ Nid yw'n mwynhau dysgu iaith arall ac ni fyddai'n hoffi parhau i Safon Uwch

☐ Nid yw'n dysgu iaith arall ar hyn o bryd ond fe hoffai ddechrau dysgu un ym mlwyddyn 12

☐ Nid yw eisiau dysgu iaith dramor fodern

☐ Nid oes ganddo/ganddi unrhyw ffafriaeth ynglŷn â dysgu iaith

Gadewch unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn isod

**12. Gadewch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ynglŷn ag ieithoedd modern tramor yn yr ysgol isod.**

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i lenwi'r arolwg hwn.

Bydd yr adroddiad terfynol ar ieithoedd tramor modern yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn cael ei gyhoeddi yn haf 2016 ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Penny Lewis | Arolygydd arweiniol a'r awdur |
| Mamta Arnott | Aelod o'r tîm |
| Delyth Gray | Aelod o'r tîm |